

Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Siân Gwenllïan AS
Plaid Cymru



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Mark Isherwood AS
Ceidwadwyr Cymreig



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru



Mark Reckless AS
Plaid Diddymu Cynulliad Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	6
Argymhellion	8
1. Proses y gyllideb	12
2. Datganoli pwerau cyllidol.....	22
3. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol.....	30
4. Goblygiadau ariannol biliau	39
5. Deddfwriaeth heblaw gan y Llywodraeth	45
6. Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.....	54
7. Ymchwiliadau'r Pwyllgor.....	61
8. Brexit a'r Undeb Ewropeaidd - trefniadau pontio	67
9. COVID-19	76
Atodiad: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	81

Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar y gyllideb yn y Bumed Senedd

..... GWAITH CRAFFU'R PWYLLGOR YN Y BUMED SENEDD

**Ombwdsmon
Ombudsman**
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

5 AMCANGYFRIF GAN
OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU



5 CYLLIDEB DDRAFFT
LLYWODRAETH CYMRU

11 CYLLIDEB ATODOL
LLYWODRAETH CYMRU

5  **Archwilio Cymru
Audit Wales**
AMCANGYFRIF GAN ARCHWILYDD
CYFFREDINOL CYMRU A
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



5 CYLLIDEB DDRAFFT
COMISIWN Y SENEDD

..... GWNAETH Y PWYLLGOR GYFANSWM O



271

O ARGYMHELLION I'R
SEFYDLIADAU HYN



Rhagair y Cadeirydd

Ein rôl ni yn bennaf fel y Pwyllgor Cyllid yw craffu ar y defnydd o adnoddau a gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru - proses sydd wedi esblygu'n gyflym yn ystod y Senedd hon, yn dilyn Deddf Cymru 2014.

Mae datganoli cyllidol wedi golygu bod tua 20 y cant o wariant Llywodraeth Cymru bellach yn cael ei gyllido drwy refeniw treth, gan gynyddu atebolrwydd Llywodraeth Cymru i bobl Cymru.

Yn dilyn ein hymchwiliad i broses y gyllideb yng Nghymru, rydym o'r farn bod angen proses newydd ar gyfer pasio'r gyllideb flynyddol. Dylai unrhyw broses ddeddfwriaethol gael ei llywio gan egwyddorion symlrwydd, tryloywder ac atebolrwydd - proses sy'n diwallu anghenion ac yn adlewyrchu aeddfedrwydd y Senedd. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n agored i ystyried sefydlu corff adolygu ar y cyd rhwng y Llywodraeth a'r Senedd, gyda gwahoddiad i arbenigwyr annibynnol, i adolygu proses y Gyllideb. Rydym o'r farn y dylai'r Pwyllgor nesaf fynd ar drywydd y gwaith hwn gyda'r Gweinidog Cyllid nesaf.

Mae Brexit a phandemig COVID-19 wedi cael effeithiau sylweddol ar gyllid Cymru. Roedd Brexit yn newid cyfansoddiadol mawr ac mae llawer o ansicrwydd yn parhau, tra bod yr ymateb ariannol i'r pandemig hefyd wedi codi pryderon difrifol ynghylch y mecanwaith cyllido ar gyfer Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi archwilio'r materion hyn ac mae'r adroddiad gwaddol hwn yn darparu sylwebaeth ar y meysydd pwysig hyn o'n gwaith. Gobeithiwn y gall y Pwyllgor nesaf adeiladu ar y gwaith hwn wrth weithio tuag at ei nodau ei hun yn ystod y Chweched Senedd.

Cyflawniad pwysig i'r Pwyllgor fu datblygu Bil Pwyllgor - yr unig Fil Pwyllgor hyd yn hyn. Aeth Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ar ei daith drwy'r pedwar cyfnod ym mhroses graffu'r Senedd, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2019. Mae'r Bil hwn yn ffrwyth llawer o waith caled a wnaed dros nifer o flynyddoedd a phroses graffu drwyadl. Yn bersonol fel Cadeirydd y Pwyllgor, roedd yn fraint cael bod yn Aelod â Gofal dros y ddeddfwriaeth bwysig hon.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fel rhan o'n gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 daethom i'r casgliad bod angen diwygio'r Ddeddf er mwyn gwella effeithlonrwydd swyddogaethau a gyflawnir gan y Swyddfa Archwilio a'r Senedd. Rydym wedi ymgynghori ar Fil drafft ac yn argymhell y dylai'r Pwyllgor nesaf gyflwyno'r Bil i'r Senedd.

Mae datganoli pwerau cyllidol wedi bod yn ystyriaeth newydd i'r Senedd, ac mae'n hanfodol ein bod ni'n derbyn cymorth arbenigol wrth i ni ystyried y materion hyn. Er bod y Pwyllgor wedi cael cymorth drwy gyngor amhrisiadwy ein cynghorwyr arbenigol, rydym wedi canfod mai cronfa fach o arbenigedd cyllidol/treth sydd yng Nghymru, ac mae nifer o arbenigwyr eisoes yn aelodau o grwpiau/fforymau amrywiol Llywodraeth Cymru. Rydym yn annog y Pwyllgor nesaf i feddwl am gynghorwyr ar ddechrau'r tymor.

Hoffwn ddiolch i randdeiliaid - yn sefydliadau ac unigolion - sydd wedi rhoi o'u hamser i ymgysylltu â'r Pwyllgor yn ystod tymor y Senedd, a thrwy hynny wedi gwella ein gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog Cyllid a'i rhagflaenydd - rydym wedi gallu cynnal perthynas agored a derbyngar â nhw. Rwy'n mawr obeithio y bydd y berthynas adeiladol hon yn cael ei chynnal rhwng y Pwyllgor a'r Gweinidog Cyllid yn y Senedd nesaf.

Rwyf hefyd yn estyn fy niolch i Aelodau'r Pwyllgor yn y gorffennol a'r presennol am eu cyfraniad at ein gwaith, ac i staff Comisiwn y Senedd am eu proffesiynoldeb, sydd wedi cael ei werthfawrogi o ddifri gan holl Aelodau'r Pwyllgor.

Yn olaf, roedd ein ffrind a'n cydweithiwr Steffan Lewis yn Aelod o'r Pwyllgor hwn yn ystod ei gyfnod yn y Senedd, a hoffwn ddod â'r rhagair hwn i ben drwy gydnabod y cyfraniad a wnaeth Steffan i waith y Pwyllgor Cyllid.

**Llyr Gruffydd,
Cadeirydd**

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr amser mwyaf posibl ar gael ar gyfer craffu ar y gyllideb cyn i'r Senedd gymeradwyo'r gyllideb derfynol. Tudalen 15

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried sut gall weithio gyda'r Pwyllgorau polisi perthnasol i wella gwaith craffu ar y gyllideb..... Tudalen 15

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn adeiladu ar y dull mwy strategol mae'r Pwyllgor wedi ei ddefnyddio yn nhymor y Senedd hon. Tudalen 15

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn parhau i:

- gynnal digwyddiad blynyddol i randdeiliaid, ac yn
- defnyddio'r wybodaeth hon gan randdeiliaid i lywio dadl ar flaenoriaethau cyllidebol yn y siambr. Tudalen 17

Argymhelliad 5. Er mai cyn toriad yr haf yw'r amser delfrydol ar gyfer amserlennu digwyddiad i randdeiliaid ar y gyllideb a dadl ar flaenoriaethau, mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried yr amser gorau ar gyfer y digwyddiadau hyn wrth agosáu at gyllideb ddrafft 2022-23..... Tudalen 17

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau dadl flynyddol ar flaenoriaethau cyllidebol yng nghylch ffurfiol y gyllideb..... Tudalen 17

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r lefel well o fanylder a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn nogfennaeth y Gyllideb. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn adroddiadau'r Prif Economegydd a'r adroddiadau polisi treth wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn adeiladu ar y gwelliannau hyn yng Nghyllidebau'r dyfodol, yn enwedig mewn meysydd fel yr asesiadau effaith integredig strategol, cynllun gwella'r gyllideb a gwaith ar gyllidebu ar sail rhyw. Tudalen 19

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad ynghylch yr angen am broses gyllidebol ddeddfwriaethol ac yn argymell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid nesaf i sefydlu grŵp

annibynnol i adolygu'r broses bresennol ar gyfer cytuno ar y gyllideb yng Nghymru fel mater o flaenoriaeth..... Tudalen 21

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid mewn sefydliadau datganoledig eraill i bwysu ar y cyd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddod i sesiynau'r Pwyllgor fel bod modd craffu'n effeithiol ar drefniadau cyllidol.....Tudalen 28

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn cysylltu â Phwyllgor Materion Cymreig y Deyrnas Unedig i ymchwilio a oes posibilrwydd o weithio ar y cyd i graffu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig o ran datganoli pwerau cyllidol.....Tudalen 29

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ymgymryd â gwaith pellach i ystyried a ddylid adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chyllidebau atodol.....Tudalen 38

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn parhau i adolygu'r Datganiad Egwyddorion yn rheolaidd ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol.....Tudalen 38

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gwneud gwaith pellach i wella ansawdd yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.....Tudalen 44

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn adolygu'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chyfeirio Biliau Pwyllgor i'w hystyried gan Bwyllgorau yng Nghyfnod 1.....Tudalen 47

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ceisio ymgysylltu'n gynnar â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Bil Pwyllgor drafft a'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, er mwyn cynyddu'r cyfle i ddatrys materion cyn ei gyflwyno ac i wella effeithlonrwydd y broses ddeddfwriaethol.....Tudalen 48

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn cynnal gwaith craffu ychwanegol ar unrhyw newid sylweddol i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â Biliau yn y dyfodol, gan gyflwyno sylwadau i'r Aelod â gofal i ohirio'r penderfyniad ariannol, neu gynnal gwaith craffu ychwanegol yn ddiweddarach yn y broses ddeddfwriaethol os oes angen.
.....Tudalen 52

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn adolygu'r broses ar gyfer cyflwyno Biliau Aelodau i sicrhau ei fod yn

gwneud y mwyaf o'r cyfle a gyflwynir i'r Aelodau a ddewisir drwy bleidlais, yn hwyluso craffu effeithiol ac yn defnyddio amser y Senedd yn effeithlon.

.....Tudalen 53

Argymhelliad 18. Wrth ystyried ei ffyrdd o weithio, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn adolygu'r dull a ddefnyddir i graffu ar y gwahanol gyhoeddiadau a osodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn i gadarnhau bod y dull hwn yn parhau i fod yn addas.....Tudalen 55

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried cyflogi ymgynghorydd recriwtio gyda rhwydweithiau eang o weithwyr proffesiynol, i gynorthwyo'r gwaith o gyrchu a nodi ymgeiswyr â chymwysterau addas i fodloni'r gofynion ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru.....Tudalen 56

Argymhelliad 20. Wrth bennu'r trefniadau tâl ar gyfer penodiadau yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn osgoi cysylltu tâl Archwilydd Cyffredinol Cymru â graddfa gyflog y cytunwyd arni gan gorff allanol.....Tudalen 57

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol ac effeithiol gyda Gweinidog Cyllid y dyfodol..... Tudalen 66

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn parhau i geisio a monitro datblygiadau o ran gwella data ac ymchwil sy'n benodol i Gymru i ategu polisïau cyllidol..... Tudalen 66

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried y sefyllfa mewn perthynas â chyllid Cymru yn dilyn Brexit, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn derbyn cyllid sydd o leiaf yn cyfateb i gyllid a dderbyniwyd o dan gynlluniau'r Undeb Ewropeaidd mewn blynyddoedd blaenorol.....Tudalen 75

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried yr effaith o ran atebolrwydd y gwahanol strwythurau sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Deyrnas Unedig i ddarparu a dosbarthu cyllid fydd yn disodli cyllid blaenorol yr Undeb Ewropeaidd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a sut mae hyn yn rhyngweithio â blaenoriaethau a chyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.....Tudalen 75

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adferiad ar ôl COVID-19 yn thema graffu ganolog ar gyfer pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd drwy gydol y tymor seneddol nesaf..... Tudalen 80

1. Proses y gyllideb

Cefndir

1. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys nifer o gyfrifoldebau statudol a Rheolau Sefydlog, yn fwyaf arbennig craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru a Chyllidebau Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (archwilir hyn ymhellach ym Mhennod 3).
2. Yn dilyn Deddf Cymru 2014, a roddodd bwerau i'r Senedd dros dreth tir y dreth stamp, treth tirlenwi, a'r pŵer i amrywio cyfradd treth incwm yng Nghymru hyd at 10 y cant, bu'r Pwyllgor a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i newid proses y gyllideb, a oedd yn cynnwys newidiadau i Reolau Sefydlog a chytuno ar **protocol cyllideb** ar gyfer yr egwyddorion sy'n sail i'r broses gyllidebol.
3. Yn ogystal, rhoddodd Deddf Cymru bwerau benthycu tymor byr ehangach i Lywodraeth Cymru a phwerau newydd i fenthycu ar gyfer gwariant cyfalaf.
4. Ar hyn o bryd, awdurdodir cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru drwy'r cynnig cyllideb blynyddol, a chytunir ar gyfraddau treth incwm Cymru drwy benderfyniad gan y Senedd.

Proses y gyllideb

5. Croesawodd y Gweinidog waith craffu ar y gyllideb y Pwyllgor:

“I think that there have been great changes over the course of this Senedd in terms of our budget processes, and I think that many of those have been a direct result of the scrutiny provided by the Finance Committee and other scrutiny committees in the Senedd ... I think that the work that the committee has done and the relationships that we've positively established with committees have been very useful in that.”¹

6. Aeth ymlaen i ddweud:

“... the Finance Committee has been invaluable in focusing our minds on how we can improve what we do. So, when Finance Committee reports come out, the first thing we do is grab those recommendations and see if there are things there that we can learn from and what we can agree to. I have to say, almost all of the recommendations that

¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 5

Finance Committee comes forward with we are able to agree, because they genuinely do move us forward, in terms of what I think we both want to achieve, and that is a budget that meets the needs of people in Wales, but also is understandable and transparent and drives forward the kinds of things that we talk about in our budget improvement plan.”²

Yr amser sydd ar gael i graffu

7. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu y dylai'r Pwyllgor fel rheol gael wyth wythnos i adrodd ar gynigion cyllideb amlinellol Llywodraeth Cymru, ond rhaid rhoi o leiaf bum wythnos iddo adrodd (ynghyd â'r pwyllgorau polisi).

8. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu ansicrwydd ynghylch faint o arian a oedd i fod ar gael i Lywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi darparu Adolygiad o Wariant aml-flwyddyn ac mae wedi gohirio digwyddiadau cyllidol oherwydd Brexit a phandemig COVID-19. Mae oedi mewn digwyddiadau cyllidol yn y Deyrnas Unedig wedi arwain at oedi wrth gynllunio a chyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, ac yn ei dro wedi lleihau amser craffu'r Pwyllgor. Yn adroddiad y Pwyllgor ar [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22](#), argymhellodd y Pwyllgor:

“Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd digwyddiadau cyllidol y Deyrnas Unedig fel arfer yn cael eu cynnal erbyn dyddiad penodol i sicrhau bod gan weinyddiaethau datganoledig ddigon o amser i bennu cyllideb a gwneud gwaith craffu ystyrlon.”

9. Gan fyfyrto ar yr amser sydd ar gael ar gyfer craffu, dywedodd y Gweinidog:

“I think the fact that we have been able to move in such an agile and flexible way this year is a positive reflection on the protocol that we have, and it hasn't been unduly affected in terms of the increase that we made to the eight weeks of scrutiny, although I appreciate that when you're having several of those weeks across Christmas recess, for example, it's not ideal by anybody's standards. But I think the protocol has served us well thus far.”³

² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 29

³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 13

Proses gyllidebol ddwy ran

10. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ddefnyddio'r pedwar amcan a ganlyn wrth graffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru:

- **Fforddiadwyedd** - A yw'r darlun llawn o ran cyfanswm refeniw a gwariant yn gytbwys?
- **Blaenoriaethu** - A yw'r dyraniadau wedi eu rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?
- **Gwerth am arian** - A yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda - yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol? Hynny yw, deilliannau
- **Prosesau'r gyllideb** - A ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch? A oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

11. Yn ogystal, cyn cyhoeddi pob Cyllideb ddrafft, cyfarfu'r Pwyllgor i drafod blaenoriaethau craffu, ac mae wedi ysgrifennu at Bwyllgorau eraill y Senedd i nodi'r ffocws a awgrymir ar gyfer craffu ariannol y flwyddyn honno. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi annog Pwyllgorau eraill i ddilyn y dull hwn i ddarparu dull mwy cydgysylltiedig o graffu.

12. Mae datganoli pwerau codi treth a benthyca wedi rhoi dimensiwn newydd i broses gyllideb Llywodraeth Cymru, lle bydd ganddi fwy o reolaeth ar refeniw treth, dyledion ac y bydd penderfyniadau polisi yn dylanwadu ar dwf sylfaen dreth Cymru ac yn dylanwadu ar refeniw Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

13. Mae hyn wedi arwain y Pwyllgor i addasu ffocws craffu i ddull mwy lefel uchel, gan ystyried proses flaenoriaethu a dyrannu'r Gweinidog Cyllid, ynghyd â rhagweld a pholisïau ynghylch treth, benthyca a thwf y sylfaen dreth. I gyd-fynd â'r newid dull hwn, mae'r Pwyllgor wedi annog Pwyllgorau eraill i graffu'n fanylach ar eu meysydd pwnc.

14. Croesawodd y swyddog a ddaeth gyda'r Gweinidog i gyfarfod y Pwyllgor y cydgysylltiad rhwng Pwyllgorau:

“... the co-ordination between the roles of the different committees in scrutinising the budget has improved quite a lot during this term, particularly since 2017, with the new protocol. Prior to that, I think there was quite a lot of overlap between the types of questions that

committees, particularly Finance Committee and subject committees, were asking either the finance Minister or the relevant portfolio Ministers. I think that shifted quite a lot, and now the angles that the Finance Committee explores are different from the kind of angles that the subject committees are exploring in their budget scrutiny. They are more strategic and, I suppose, macro level about the strategic choices that are being made around the budget as opposed to the portfolio-specific issues that tended to crowd in quite a lot in scrutiny of the budget for the finance Minister in the earlier period. So, I think that's quite a big step forward in terms of making the process more effective and more comprehensive."⁴

15. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r amser y cytunwyd arno a ganiateir ar gyfer craffu ar y Gyllideb yn gweithio'n dda 'mewn cyfnod arferol', ond mae'n siomedig bod digwyddiadau ehangach wedi arwain at gwtogi ar graffu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr amser mwyaf posibl ar gael ar gyfer craffu ar y gyllideb cyn i'r Senedd gymeradwyo'r gyllideb derfynol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried sut gall weithio gyda'r Pwyllgorau polisi perthnasol i wella gwaith craffu ar y gyllideb.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn adeiladu ar y dull mwy strategol mae'r Pwyllgor wedi ei ddefnyddio yn nhymor y Senedd hon.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a Dadl Cyfarfod Llawn - Blaenoriaethau cyllidebol

16. Mae'r Pwyllgor wedi ymdrechu i wneud y mwyaf o gyfleoedd craffu i rhanddeiliaid o fewn y cyfyngiadau amser drwy wahodd rhanddeiliaid ac unigolion yn flynyddol i wneud sylwadau ar gynigion cyllideb drafft disgwylidig yn seiliedig ar ffigurau dangosol a hefyd ar ddull strategol Llywodraeth Cymru o osod y gyllideb, blaenoriaethu adnoddau, yr allbynnau a'r canlyniadau mae'n bwriadu eu cyflawni.

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 13

17. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu allanol llwyddiannus i lywio'r gwaith craffu ar y gyllideb sydd ar ddod, gan gynnwys yn Aberystwyth, Ynys Môn, Casnewydd ac Abertawe.



Llun: Digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn Abertawe ym mis Mehefin 2018

18. Yn 2020, gweithredwyd dull digidol drwy arolygon ac arolygon barn oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

19. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi ei bryder yn y gorffennol nad yw'r Senedd yn cael cyfle ffurfiol i drafod blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru a dylanwadu arnynt o bosibl, cyn i'r gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnal dadl ar flaenoriaethau yn y Senedd cyn toriad yr haf, i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am farn yr Aelodau cyn iddi lunio Cyllideb ddrafft.

20. Yn 2019, sicrhodd y Pwyllgor ei ddadl gyntaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai 2020, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Pwyllgor Busnes ac at y Gweinidog, yn gofyn am ddadl flynyddol ar flaenoriaethau'r

gyllideb. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais, a nododd y cafwyd 'cefnogaeth unfrydol' i gynnal y math hwn o ddadl yn flynyddol.⁵

21. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn teimlo bod y dadleuon cyn yr haf yn 'hynod ddefnyddiol' o ran deall blaenoriaethau cydweithwyr ar gyfer y gyllideb sydd o'u blaenau, a chroesawodd y gwaith ymgysylltu a wnaed gan y Pwyllgor:

"I think that kind of early engagement and opportunity to discuss things in a very open way has been really useful, as has the work that has underpinned those debates, which committee has undertaken in terms of your public engagement. I recall a couple of years ago you had sessions in Aberystwyth, where members of the public were able to come and share their views with you, and I thought that that kind of very open engagement at an early stage was really important."⁶

22. Fodd bynnag, nododd swyddog y Gweinidog y gallai'r Pwyllgor fod eisiau ystyried amseriad y ddadl nesaf, gan awgrymu y gallai'r adolygiad gwariant disgwylidig bennu pryd fyddai'r amser gorau ar gyfer dadl ar flaenoriaethau.⁷

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn parhau i:

- gynnal digwyddiad blynyddol i randdeiliaid, ac yn
- defnyddio'r wybodaeth hon gan randdeiliaid i lywio dadl ar flaenoriaethau cyllidebol yn y siambr.

Argymhelliad 5. Er mai cyn toriad yr haf yw'r amser delfrydol ar gyfer amserlennu digwyddiad i randdeiliaid ar y gyllideb a dadl ar flaenoriaethau, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried yr amser gorau ar gyfer y digwyddiadau hyn wrth agosáu at gyllideb ddrafft 2022-23.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau dadl flynyddol ar flaenoriaethau cyllidebol yng nghylch ffurfiol y gyllideb.

⁵ **Llythyr** gan y Llywydd i'r Pwyllgor Cyllid, 4 Mehefin 2020

⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 9

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 15

Gofynion o ran gwybodaeth

- 23.** Mae'r Pwyllgor wedi gweithio gyda'r Gweinidog i wella'n barhaus ansawdd a thryloywder y wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â'i chyllidebau. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y gallu i gynnal gwaith craffu ariannol o safon yn dibynnu'n allweddol ar yr wybodaeth ariannol sydd ar gael.
- 24.** Mae'r Rheolau Sefydlog a'r protocol cyllideb yn amlinellu'r lefel ddisgwyliedig o fanylion y dylid eu cynnwys yn nogfennaeth y gyllideb.
- 25.** Yn ystod tymor y Senedd hon mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dogfennaeth fanylach i fynd gyda chyllidebau ers datganoli treth. Roedd y ddogfennaeth a oedd yn dod gyda Chyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnwys
- **Naratif** ar y gyllideb, gan gynnwys asesiad effaith strategol.
 - **Cynllun gwella'r gyllideb**, gyda'r bwriad o wella proses y gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio i ysgogi gwelliant parhaus.
 - **Tablau cyllideb manwl**
 - **Adroddiad y Prif Economegydd ar gyfer 2020**, crynodeb o ddatblygiadau economaidd a rhagolygon economaidd a chyllidol.
 - Dogfennaeth arall yn ddibynnol ar flwyddyn, fel **Dadansoddiad dosbarthiadol** 2021-22 neu Adroddiad Polisi Trethi.
 - Cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei **Golwg ar Drethi Cymru**, rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru.
- 26.** Dywedodd y Gweinidog:

“Just over the past couple of years, you'll have seen that we publish a much greater range and depth of information now alongside our budget—for example, the new work that we've been doing on distributional analysis, the new work that we've been doing on understanding the carbon impact of spend, and also the gender budgeting work, which was in response to some of the issues raised by both this committee and others. Alongside that, we've tried to corral all of this over the last couple of years through our budget improvement plan, and that has been, I think, a particularly important central point, really, for us to gather all of these new innovations that we're developing, but also to do so with a sense of focus and purpose, looking

always five years ahead as to what more we need to be doing in terms of understanding the impact of spend, but also in terms of the engagement work that we do to develop our budget in the first place.”⁸

27. Dywedodd y swyddog a ddaeth i gyfarfod y pwyllgor gyda'r Gweinidog:

“Just a plug for the tax policy report that was published with the final budget. There's a lot of what I would describe as fascinating stuff in there about trying to understand the potential behavioural effects of changing tax rates, particularly on decisions on where to live. It's quite a well-developed literature on the impact of income tax rates on propensity to work, and that kind of thing. But certainly in a UK context, it's relatively new to be thinking about the impact of tax on location decisions that people make about where to live, and so we've done a lot of work on that over the last few months, and that's summarised in the tax policy report. We'd be very interested in views from the committee, obviously, but also the wider interested public, academics and others, about the way that analysis has been done. So, that's a kind of contribution, I suppose, to building knowledge and understanding in that area going forward.”⁹

28. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i'r effaith ar y sylfaen dreth fod yn ystyriaeth allweddol wrth lunio, gweithredu a chraffu ar bolisïau, nawr bod maint Cyllideb Cymru yn gysylltiedig â thwf sylfaen dreth Cymru. Bydd hon yn her allweddol i'r Pwyllgor Cyllid nesaf, y Senedd nesaf a Llywodraeth nesaf Cymru.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r lefel well o fanylder a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn nogfennaeth y Gyllideb. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn adroddiadau'r Prif Economegydd a'r adroddiadau polisi treth wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn adeiladu ar y gwelliannau hyn yng Nghyllidebau'r dyfodol, yn enwedig mewn meysydd fel yr asesiadau effaith integredig strategol, cynllun gwella'r gyllideb a gwaith ar gyllidebu ar sail rhyw.

Adolygu a diwygio proses y gyllideb

29. Adroddodd y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i [broses cyllideb ddeddfwriaethol](#) ym mis Awst 2020.

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 5

⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 77

- 30.** Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael deddfwriaeth flynyddol i basio cyllideb Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn golygu y byddai'r Senedd yn pleidleisio ar fil cyllideb neu gyllid ac yn ei gymeradwyo.
- 31.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai proses gyllidebol ddeddfwriaethol yn "*adlewyrchu aeddfedrwydd y Senedd yn well*", ac y bydd gwneud y newidiadau hyn yn cryfhau rôl Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn dilyn datganoli pwerau cyllidol.
- 32.** Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cydnabod y byddai angen adolygiad manwl o'r broses gyllidebol ehangach ar gyfer unrhyw newid i broses gyllidebol ddeddfwriaethol. Yn seiliedig ar brofiad yn yr Alban ac mewn manau eraill, byddai'n well cynnal adolygiad o'r fath gan grŵp adolygu annibynnol. Byddai'n rhaid i broses newydd sicrhau bod egwyddorion symlrwydd, tryloywder ac atebolrwydd wrth wraidd ei datblygiad.
- 33.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy dweud bod y broses bresennol yn rhoi digon o hyblygrwydd, y gellid ei leihau drwy broses ddeddfwriaethol. Dywedodd y Gweinidog "Cyn cynnal unrhyw ddiwygiadau o'r fath byddai angen nodi buddion ychwanegol clir nad ydynt ar gael yng nghyd-destun y broses bresennol".
- 34.** Dywedodd y Gweinidog fod proses gyllideb Cymru yn rhoi'r hyblygrwydd i ddelio â'r digwyddiadau cyllidol annisgwyl dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf¹⁰, er bod swyddog y Gweinidog wedi dweud bod yr hyblygrwydd a gynigir ym mhroses y gyllideb yng Nghymru yn werthfawr:

"I think the other point I would make is I think we have the benefits of the approach they have in Scotland without the downsides of the rigidity that comes from a more explicit legislative process. That flexibility, I think, is valuable, so in looking at this in the next Senedd term, what we're really looking to do is to try and get the upside without the downside if we can. It there are things that we can do to change things that will improve matters, then great, but I think trying to retain that flexibility has a lot to be said for it."¹¹

¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 51

¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 53

35. Er nad oedd wedi ei hargyhoeddi o'r angen am broses gyllidebol ddeddfwriaethol, dywedodd y Gweinidog y byddai'n agored i gydweithio i adolygu'r broses gyllidebol:

"I'd really be open to a review process such as the Scottish budget process review group and the work that it undertook in terms of exploring what kind of improvements could be made to the budget process overall. When we had the debate on whether or not a specific legislative budget process should be put in place, our view was very much that the system at the moment has enabled us to act rapidly and flexibly and that a legislative process such as the one in Scotland wouldn't have brought us any additional benefits, but I realise that this is an area of ongoing debate with the committee. Potentially, the place to have that debate and those further discussions would be through that budget process review group that the next Government might be inclined to introduce."¹²

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad ynghylch yr angen am broses gyllidebol ddeddfwriaethol ac yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid nesaf i sefydlu grŵp annibynnol i adolygu'r broses bresennol ar gyfer cytuno ar y gyllideb yng Nghymru fel mater o flaenoriaeth.

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 49

2. Datganoli pwerau cyllidol

Deddf Cymru 2014

36. Rhoddodd Deddf Cymru 2014 bwerau i'r Senedd dros:

- treth dir y dreth stamp,
- y dreth tirlenwi,
- y pŵer i amrywio cyfradd y dreth incwm yng Nghymru hyd at 10 pwynt canran,
- pwerau benthyca tymor byr ehangach,
- pwerau newydd i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf, a'r
- gallu i gyflwyno trethi newydd, yn amodol ar amrywiol fesurau.

37. Sefydlodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 Awdurdod Cyllid Cymru i gasglu a rheoli'r trethi a ddatganolwyd gan Ddeddf Cymru.

Trethi datganoledig

38. Ym mis Ebrill 2018, cyflwynwyd trethi cyntaf Cymru ers bron i wyth can mlynedd. Disodlodd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi Dreth Tir Treth Stamp y Deyrnas Unedig a'r Dreth Dirlenwi yn y drefn honno.

39. Dilynwyd hyn gan weithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mis Ebrill 2019, sef y ffynhonnell fwyaf o refeniw treth sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

40. Amcangyfrifodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sy'n gyfrifol am ragweld refeniw treth Cymru, y byddai Llywodraeth Cymru yn casglu dros £2 biliwn mewn refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn 2021-22, tra byddai'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn codi £288 miliwn a £33 miliwn yn y drefn honno.

41. Nodwyd yn naratif Llywodraeth Cymru ar gyllideb ddrafft 2021-22 fod refeniw treth Cymru yn cynrychioli 17 y cant o gyfanswm ei chyllideb.

Rhagolygon Cyfraddau Treth Incwm Cymru

42. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar refeniw treth Cymru, gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld gostyngiad sylweddol yn

refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru rhwng ei rhagolygon ym mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021 – cymaint â £119 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd (5 y cant) rhwng 2020-21 a 2024-25.

Tabl 1. Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru rhwng 2020-21 a 2025-26

£ miliwn						
	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Mawrth 2020	2,170	2,273	2,377	2,466	2,558	
Mawrth 2021	2,093	2,113	2,233	2,315	2,495	2,643
Newid	-77	-160	-144	-151	-63	

Ffynhonnell: Rhagolygon treth a gwariant datganoledig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Mawrth 2021)

43. Yn 2020, archwiliodd y Pwyllgor effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol. Yn ogystal ag archwilio astudiaethau rhyngwladol a domestig ar ymatebolrwydd trethdalwyr i amrywiadau treth trawsffiniol ac argaeledd data sy'n benodol i Gymru i ategu modelu academaidd, ystyriodd yr ymchwiliad sylfaen drethu Cymru, proffiliau incwm a dulliau o liniaru treth incwm bersonol. Gyda 44 y cant o boblogaeth Cymru yn talu treth incwm (o gymharu â 47 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig), daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o ddatblygu sylfaen treth incwm Cymru a sicrhau'r refeniw treth mwyaf posibl.

44. Cydnabu'r Gweinidog fod mwy i'w wneud ynghylch sylfaen dreth Cymru, gan ddweud:

“... we are seeking to continue to improve our understanding of how the Welsh Government's policy levers, and those, of course, of the wider public sector here in Wales, influence the tax base, and as part of that work we're exploring the development of metrics to assess the impact of policy proposals on the Welsh tax base. So, again, we're taking important steps forward in this regard. This isn't just the responsibility of the finance Minister and the Welsh Treasury, to look at where we can raise money, but actually it's how we can improve the tax base more

widely through our wider policy levers. But that work is happening. I appreciate there's a lot more to do there.”¹³

45. Dywedodd y swyddog a ddaeth i gyfarfod y Pwyllgor gyda'r Gweinidog:

“... there's still quite a long way to go across the Welsh Government, I think, in terms of thinking about growing the tax base. The impact on the tax base of policy as a key consideration is still a relatively new thing for us as a Government. But when we're looking at policies to help people secure good-quality work, for example, to develop their careers, part of the justification for that is the impact it will have on the tax base going forward, and that should be an important consideration. Of course, there are many other considerations, like making Wales an attractive place to live and set up a business. These are all things that have all sorts of reasons for doing them, and one of them is growing the tax base. I think, yes, that's something we're still working on, and need to make progress on. I think it's really helpful to have that challenge from the committee.”¹⁴

Cronfa Wrth Gefn Cymru

46. Sefydlodd y fframwaith cyllidol Gronfa Wrth Gefn Cymru, sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddwyn cyllid ymlaen dros flynyddoedd. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei chadw o fewn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn cael ei gwahanu rhwng adnoddau a chyfalaf. Gellir talu cyllid adnoddau (gan gynnwys grant bloc adnoddau a derbynebaw treth) i'r gronfa adnoddau. Gellir tynnu arian o'r gronfa adnoddau i gyllido gwariant adnoddau neu gyfalaf. Gellir talu cyllid cyfalaf (gan gynnwys grant bloc cyfalaf a benthycy cyfalaf) i'r gronfa gyfalaf. Gellir tynnu arian o'r gronfa gyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf yn unig.

47. Mae cyfanswm o ddim mwy na £350 miliwn yn y Gronfa Wrth Gefn. Nid oes terfynau blynyddol ar gyfer taliadau i'r Gronfa Wrth Gefn. Mae'r swm y gellir ei dynnu i lawr bob blwyddyn wedi ei gyfyngu i £125 miliwn ar gyfer adnoddau a £50 miliwn ar gyfer cyfalaf. Gall Gweinidogion Cymru ofyn am hyblygrwydd ychwanegol gyda chydysyniad Gweinidogion y Trysorlys mewn amgylchiadau eithriadol.

48. Yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog ynglŷn ag Ail Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, ailadroddodd y Gweinidog Cyllid fod delio â'r

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 70

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 72

pandemig yn gofyn am fwy o hyblygrwydd o ran cyfyngiadau blynyddol i gael mynediad at Gronfa wrth Gefn Cymru, sydd hefyd yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i gario cyllid rhwng blynyddoedd. Dywedodd:

“We have had numerous discussions with the Chief Secretary to the Treasury about using the tools that we have better, and having access to more of the Wales reserve. That request was declined on the basis that we have established the guarantee with the UK Government in terms of additional funding. So, from their perspective, that wasn't needed at this time.”

49. Dywedodd y Gweinidog ymhellach y dylai Llywodraeth Cymru gael yr hyblygrwydd i dynnu mwy o gronfeydd wrth gefn os oes angen a chario mwy o arian drosodd i reoli'r gyllideb yn fwy effeithiol:

“And perhaps at this point in the financial year, that's reasonable, but as we move towards the end of the financial year, I think it's really important that we retain larger flexibility to draw down more if we need to, but also potentially to carry more over into the next financial year, because clearly we don't know where we're going to be in the spring, and managing the budget is quite difficult in the sense that you're planning for a wide range of scenarios, and I think that it would help us a great deal if we were able to plan on that basis, with the confidence that we could carry more over to next year without having to find ourselves in a position that nobody wants to be in in terms of returning money to the Treasury.”

50. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Trysorlys EM ddatganiad i'r wasg yn nodi bod £650 miliwn yn rhagor o gyllid COVID-19 wedi ei ddyrannu i Gymru. Amlygodd y “Gellir gwario'r arian yn awr neu ei gario drosodd i'w wario ym mlwyddyn ariannol 2021/22, gan ddarparu hyblygrwydd hanfodol a digynsail”.

51. Pan ofynnwyd iddo a oedd achos dros hyblygrwydd tymor hwy i Lywodraeth Cymru gario cyllid drosodd, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod hwn yn fater i'r Trysorlys, ond y byddai'n ymchwilio i'r mater:

“... we need to get to the bottom of is what the sort of statutory basis of this might be, and what the legal basis in accountancy terms might be, and I don't know the answer to those questions, so I'm very happy to get them. My experience of the Treasury is they don't want to be unduly pedantic about these measures. There's always a reason; it's just worth us finding out whether that reason is still relevant in 2021, post

COVID, or whether it's a hangover from the past that can be adjusted, and I'm very happy to look into that.”¹⁵

Cyflwyno trethi newydd

52. Mae Llywodraeth Cymru wedi profi'r broses ar gyfer datganoli cymhwysedd i gyflwyno trethi newydd yng Nghymru, gyda **threth tir gwag** arfaethedig. Dywedodd y Gweinidog yn chweched adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar weithredu Deddf Cymru 2014:

“Mae profiad Llywodraeth Cymru o symud drwy'r broses wedi bod yn hir ac yn heriol, gyda Thrysorlys EM yn gofyn yn barhaus am fanylion mewn perthynas â'r ffordd benodol y caiff y dreth arfaethedig ei gweithredu – sy'n fater i Gymru – yn hytrach na gwybodaeth am ddatganoli cymhwysedd ar gyfer deddfwriaeth mewn maes trethiant newydd.”

53. Nododd ymhellach:

“Mae wedi dod i'r amlwg bod diffygion difrifol yn y broses y cytunwyd arni ar gyfer datganoli cymhwysedd trethu. Fel y mae'r broses ar hyn o bryd, mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai Llywodraeth Cymru lwyddo i gyflwyno'r achos dros gymhwysedd trethu pellach. Mae angen adolygu a diwygio'r broses ar fyrder.”

54. Wrth roi tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2021-22, pwysleisiodd y Gweinidog, er bod perthynas dda ar lefel swyddogol, ei bod o'r farn ei fod yn benderfyniad gwleidyddol pam nad yw'r cymhwysedd ar gyfer cyflwyno treth tir gwag wedi ei ddatganoli.

55. Mae hyn wedi arwain at Lywodraeth Cymru yn ystyried proses annibynnol ar gyfer datrys anghydfodau, a throi at gydweithwyr yn yr Alban i benderfynu a yw hwn yn gynnig y byddent yn ei gefnogi:

“We're currently considering whether there is a case now for some kind of third-party assessment of the information that we provide to support a proposal for the devolution of tax powers, to have that kind of independent view and oversight of it, because the situation at the moment feels very, very lopsided towards the UK Government in terms of the devolution of further taxes.”

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 266

56. O ran yr oedi gyda'r broses ar drethi newydd, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

“I think if there is a legitimate concern that is raised about maybe the speed of progress or the manner of engagement, then, actually, again, that's a very legitimate issue to raise, and we'd be very happy to take that up, Mark, with the Treasury. If there are some accusations of foot dragging, we'll look into it.”¹⁶

Ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig

57. Archwiliodd yr ymchwiliad olaf a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn ystod tymor y Senedd hon weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol

58. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn wrth i'r pandemig COVID-19 ddechrau ac, fel yr ymdrinnir ag ef mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, profodd y pandemig y trefniadau cyllidol. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol cymryd tystiolaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys fel rhan o'r ymchwiliad. Mae gan y ddwy swydd rolau hanfodol i'w chwarae yn y ffordd mae Cymru yn cael ei chyllido a sut mae datganoli cyllidol yn cael ei weithredu yng Nghymru.

59. Yn anffodus, teimlai'r Pwyllgor fod ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn heriol. Er ei fod yn cydnabod y gallai amseriad yr ymchwiliad beri anawsterau yn seiliedig ar ddigwyddiadau a phwysau ehangach ar y pryd, roedd y Pwyllgor yn barod i fod yn hyblyg yn ei ddull o gasglu tystiolaeth. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol am gytuno i ddarparu tystiolaeth lafar. Fodd bynnag, nid oedd y Prif Ysgrifennydd yn fodlon ymrwymo i ddod i sesiwn dystiolaeth ffurfiol gyda'r Senedd.

60. Gellir dod o hyd i'r holl ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar dudalennau gwe'r Pwyllgor.

Safbwynt y Pwyllgor

61. Cododd yr ymchwiliad i Ddeddf Cymru 2014 a gweithredu'r fframwaith cyllidol nifer o faterion, gan gynnwys:

- cyfyngiadau'r fframwaith cyllidol wrth ymateb i bandemig COVID-19,

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 260

- Cronfa Wrth Gefn Cymru a'r hyblygrwydd sydd ar gael i Lywodraeth Cymru,
- yr angen am waith goruchwyllo annibynnol dros anghydfodau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â'r fframwaith cyllidol.

62. Derbyniwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 16 Mawrth 2021 a chynhaliwyd dadl lawn ar yr ymchwiliad ar 24 Mawrth 2021. Derbyniodd y Pwyllgor ymateb hefyd gan Cyllid a Thollau EM a Chomisiwn y Senedd.

63. Gellir gweld barn y Pwyllgor ar ddatganoli cyllidol yn ei adroddiad ar Ddeddf Cymru 2014; mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud o hyd ar ddatganoli cyllidol. Bydd pwysigrwydd ysgogwyr treth; effaith mwy o hyblygrwydd dros Gronfa Wrth Gefn Cymru; a'r angen am fecanwaith annibynnol i ddatrys unrhyw anghydfod a godir mewn perthynas â'r fframwaith cyllidol yn feysydd hanfodol i'r Pwyllgor cyfrifol nesaf eu hystyried.

64. Ni ellir tanbrizio pwysigrwydd craffu effeithiol ar ddatganoli pwerau cyllidol. Mae'r pwerau datganoledig yn dal ar eu camau cynnar - mae gwahanol ddarnau o waith wedi dangos prosesau effeithiol ar lefel swyddogol ond mae'n amlwg nad yw sgysiau gwleidyddol wedi bod yn effeithiol. Pwysleisir hyn ymhellach gan ddiffyg ymgysylltiad y Prif Ysgrifennydd â'r Pwyllgor. Mae angen craffu ar y pwerau cyllidol a ddatganolwyd gan Ddeddf Cymru 2014 - ond ni ellir cyflawni hyn pan mai dim ond Llywodraeth Cymru sy'n ymgysylltu.

65. Os na fydd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ymgysylltu â'r Senedd, rhaid i'r Pwyllgor nesaf ddod o hyd i ffyrdd eraill o ddwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfrif a deall ei barn ar y prosesau.

66. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Prif Ysgrifennydd ystyried, os nad yw'n fodlon ymgysylltu, sut gall y Pwyllgor fesur llwyddiant (neu fethiant) Deddf Cymru 2014. Ymatebodd y Prif Ysgrifennydd ar 23 Mawrth 2021, ond ni wnaeth ei lythyr fynd i'r afael yn llawn â'r materion a godwyd yn yr adroddiad ar Ddeddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol. Ni chafodd y Pwyllgor gyfle i drafod y llythyr fel y'i derbyniwyd ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid mewn sefydliadau datganoledig eraill i bwysu ar y cyd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddod i sesiynau'r Pwyllgor fel bod modd craffu'n effeithiol ar drefniadau cyllidol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn cysylltu â Phwyllgor Materion Cymreig y Deyrnas Unedig i ymchwilio a oes posibilrwydd o weithio ar y cyd i graffu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig o ran datganoli pwerau cyllidol.

3. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

Cefndir

67. Mae Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn gyrff sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Comisiwn y Senedd;
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- Comisiwn Etholiadol (mewn perthynas ag etholiadau a refferenda wedi eu datganoli Cymru, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000)

68. Mae'n ofynnol i bob un o'r gyrff hyn gyflwyno cyllideb neu amcangyfrif i'w gymeradwyo gan y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 20.

69. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am graffu ar gyllidebau/amcangyfrifon Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Pwyllgor y Llywydd yn gyfrifol am graffu ar amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol.

70. Yn gynnar yn nhymor y Senedd hon ceisiodd y Pwyllgor roi cyfarwyddyd i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol¹⁷ i sicrhau bod eu ceisiadau cyllideb/amcangyfrif yn cael eu gosod yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol yn sector cyhoeddus Cymru. O ganlyniad, fe wnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol unigol i sicrhau nad oedd eu cyllidebau/amcangyfrifon yn fwy nag unrhyw gynnydd i grant bloc Cymru.

71. Fodd bynnag, profodd y dull hwn yn broblem gan fod Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wedi dehongli cynnydd yn y grant bloc yn wahanol. Cymhlethwyd hyn ymhellach gan ddylanwadau eraill ar faint o arian a oedd ar gael mewn unrhyw flwyddyn benodol – er enghraifft, penderfyniadau polisi treth Llywodraeth Cymru a'r diffyg sicrwydd ynghylch cyllid a oedd yn dod o Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr adeg roedd Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn gosod eu cyllidebau.

¹⁷ Mae Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol y cyfeirir atynt yn y Bennod hon yn ymwneud â'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu arnynt: Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Penderfynodd y Pwyllgor fod angen ystyried a oedd dull a chanllawiau mwy priodol y gallai'r Pwyllgor eu darparu.

Ymchwiliad i gyllido cyrff a ariennir yn uniongyrchol

72. Yn 2019, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i ariannu Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol. Nod yr ymchwiliad oedd sicrhau bod Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn defnyddio dull cyson wrth baratoi eu cynigion cyllideb/amcangyfrifon.

73. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol¹⁸ a Llywodraeth Cymru yn gofyn am eu barn ar y cyfarwyddyd a'r arweiniad a ddarperir gan y Pwyllgor i gynorthwyo Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i lunio cyllidebau/amcangyfrifon yn y dyfodol.

74. Trafododd y Pwyllgor yr ymateb¹⁹ gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol a Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Gweinidog:

“... i ysgrifennu atoch cyn toriad yr haf i roi gwybodaeth am yr amrywiol ffactorau y gellid eu defnyddio i lunio cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol megis y canllawiau diweddaraf am gylchoedd cyflog y sector cyhoeddus, rhagolygon datchwyddydd cynnyrch domestig gros, rhagolygon trethi datganoledig a'n hasesiad gorau posibl o'r lefel gyffredinol o gyllid sydd ar gael ar gyfer y dyfodol.”²⁰

75. Cytunodd y Pwyllgor i nodi'n ffurfiol yr egwyddorion y dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth baratoi eu cyllideb/amcangyfrifon yn y dyfodol, ac ym mis Mai 2019 cyhoeddodd ei Ddatganiad o Egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol.

76. Rhoddodd y Pwyllgor ymrwymiad yn y Datganiad o Egwyddorion (yr Egwyddorion) i adolygu'r ddogfen yn ystod y flwyddyn weithredu ac o bryd i'w gilydd yn dilyn hynny, a'i diweddarau yn ôl yr angen.²¹

¹⁸ Llythyr at Gomisiwn y Senedd; Llythyr at Swyddfa Archwilio Cymru; Llythyr at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Llythyr at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

¹⁹ Llythyr gan Gomisiwn y Senedd; Llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru; Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

²⁰ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

²¹ Datganiad o Egwyddorion, Mai 2019

77. Yn dilyn cylch cyllideb 2020-21, trafododd y Pwyllgor yr Egwyddorion yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2020. Cydnabu'r Pwyllgor fod dogfennaeth Cyllideb pob corff a ariennir yn uniongyrchol yn dangos yr Egwyddorion i ryw raddau a thrafodwyd hyn yn fanylach mewn sesiynau craffu. Cytunodd y Pwyllgor na fyddai newidiadau yn cael eu gwneud i'r Egwyddorion ar hyn o bryd.

78. Mae'r Egwyddorion yn nodi'r wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu²², y gall Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ei defnyddio i lywio eu cynlluniau cyllidebol ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn aml yn 'heriol iawn'²³ darparu'r wybodaeth hon oherwydd:

“... the constantly uncertain path of public finances. But, again, within the context of a spending review, there's a potential for providing much more certainty to committee to aid your deliberations. But, again, this is an area where, if committee has recommendations for ways in which things could be improved, I'm sure that the incoming Government would be keen to explore those.”²⁴

79. Serch hynny, roedd y Gweinidog o'r farn bod yr Egwyddorion yn 'gadarnhaol iawn ac yn ddefnyddiol iawn' i Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth baratoi eu cyllidebau/amcangyfrifon blynyddol.²⁵

80. Cytunodd Comisiynydd y Senedd fod yr Egwyddorion yn 'hynod ddefnyddiol' ond dywedodd na allai'r Comisiwn:

“can't apply them to everything, though. I'm sure the committee understands, for example, that that part of our Commission budget that is basically in the hands of the remuneration board—we can't exercise the principles on their behalf.”²⁶

81. Teimlai'r Gweinidog 'yn gyffredinol' fod y broses ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol sy'n cyflwyno cyllidebau/amcangyfrifon yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nododd bod rhai o'r pethau sy'n digwydd sy'n gweithio mewn gwirionedd yn digwydd y tu allan i Reolau Sefydlog.²⁷ Ychwanegodd:

²² Datganiad o Egwyddorion, paragraff 8

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 43

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 43

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 47

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Mawrth 2021, paragraff 19

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 41

“Standing Orders require the directly funded bodies to provide the explanatory memorandum at the time of the supplementary budget motion being tabled. But actually I know that, in practice, they provide more information ahead of that, and that does obviously allow then you, as committee, to consider those issues before the Welsh Government tables its supplementary budget motion. I think that's been a helpful development, but it's not reflected in Standing Orders, so that might be something to be considered as an improvement for future years.”²⁸

82. Mewn ymateb i'r cwestiwn a oes gan y Comisiwn farn ar y prosesau a'r amseriadau ar gyfer gosod, craffu a chymeradwyo ei amcangyfrif a'i gyllidebau atodol y gellid ystyried eu newid yn y Chweched Senedd, dywedodd y Comisiynydd fod hwn yn 'fater i'r chweched Senedd.'²⁹ Ychwanegodd:

“on timings, we manage to get everything together by 1 October, even though, realistically, that's halfway through the financial year, so I hope that there's some credit for being able to do that, but the processes are in place to allow us to do that, so, at the moment, no, it seems to be fine.”³⁰

83. Yn ogystal, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid fod yr amseru o ran cyflwyno cyllideb atodol hefyd yn 'gyfleus'.³¹

Comisiwn y Senedd

Gwaith craffu blaenorol a thryloywder cyllidebol

84. Mae'r Bwrdd Taliadau yn paratoi Penderfyniad, sy'n amlinellu cyflogau a lefelau'r cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau. Yn ystod dechrau'r Pumed Senedd, roedd y Comisiwn wedi dewis cyllidebu gan ganiatáu ar gyfer y lwfans uchaf ar gyfer pob Aelod/Plaid. Mae hyn wedi arwain at danwariant yn sylweddol o ran y gyllideb sy'n gysylltiedig â thâl a lwfansau Aelodau. Cafodd y tanwariant hwn ei ddefnyddio gan y Comisiwn i dalu am flaenoriaethau buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 41

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Mawrth 2021, paragraff 10

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 11

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 15

85. Roedd gan y Pwyllgor bryderon ynghylch yr arfer hwn gan ei fod yn lleihau'r tryloywder ynghylch cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r Comisiwn, ac o'r herwydd cynhaliodd [ymchwiliad](#) i ddefnydd y Comisiwn o danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Arweiniodd yr ymchwiliad hwn at wahanu cyllid ar gyfer y Comisiwn ac adnoddau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae tanwariant o ran Penderfyniad y Bwrdd Taliadau bellach yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

86. Roedd y Comisiynydd o'r farn bod y trefniadau presennol ar gyfer cynllunio, goruchwyllo a chymeradwyo'r gyllideb yn cynnig y cydbwysedd cywir o ran rhyddid i'r Comisiwn ac atebolrwydd i'r cyhoedd a'r Senedd.³² Ychwanegodd:

“From your point of view, I suppose, as the Finance Committee, I'm hoping it helps that we're able, when we put budgets forward, to not just give you the plans for a given year, but the likely or projected forward look for the next two years.”³³

Archwilio Cymru

Addasu'r Amcangyfrif

87. Ar 7 Tachwedd 2019, yn dilyn trafodaeth ar Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, gofynnodd y Pwyllgor i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Swyddfa Archwilio fyfyrion ar yr Amcangyfrif cychwynnol a gyflwynwyd gerbron y Senedd ac ystyried a ellid gwneud newidiadau i leihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, a dod ag ef yn nes at lefel y cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol.³⁴

88. Mae Rheol Sefydlog 20.22 yn nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor:

“... ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt.”³⁵

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Mawrth 2021, paragraff 7

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Mawrth 2021, paragraff 8

³⁴ [Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2019, Atodiad 1](#)

³⁵ [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru](#)

89. Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru Amcangyfrif wedi ei addasu ar gyfer 2020-21 drwy ohebiaeth a Chwmpas diwygiedig ar gyfer y Gyllideb, gan nodi:

“Fel y byddwch yn deall, yn yr ychydig amser oedd ar gael inni ers derbyn eich llythyr, ni fu’n ymarferol i ddiwygio’r naratif ategol ... Yn amlwg, unwaith y bydd y Pwyllgor wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo ein Hamcangyfrif, byddwn yn gwneud hynny.”³⁶

90. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Amcangyfrif wedi ei addasu a gosododd Gwmpas y Gyllideb wedi ei addasu ochr yn ochr â'i adroddiad ar 22 Tachwedd 2019.

91. Myfyriodd y Pwyllgor ar y broses o addasu'r Amcangyfrif, gofynion y Rheol Sefydlog a'r dyddiadau cau dan sylw. **Ysgrifennodd** y Pwyllgor wedi hynny at yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn i'r Amcangyfrif (Cwmpas y Gyllideb) gael ei wahanu o'r naratif ategol a'r Cynllun Ffioedd arfaethedig yn y dyfodol.

92. Gweithiodd y dull newydd yn dda ar gyfer Amcangyfrif 2021-22 - nid yw wedi cael effaith negyddol ar y broses graffu na lefel yr wybodaeth a ddarperir, ac mae o gymorth mawr i'r Pwyllgor pe bai angen iddo osod Amcangyfrif wedi ei addasu yn y dyfodol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Amcangyfrif wedi ei Ailgyflwyno

93. Cyflwynwyd Amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2019-20 ym mis Medi 2018. Yn dilyn y gwaith craffu, gofynnodd y Pwyllgor i'r Ombwdsmon ailgyflwyno ei Amcangyfrif, yn benodol mewn perthynas â chynnwys costau posibl mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a chyda'r bwriad o leihau'r cyllid y gofynnir amdano.

94. Yn dilyn hynny, ailgyflwynodd yr Ombwdsmon ei Amcangyfrif ar gyfer 2019-20, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor.

³⁶ [Gwaith Craffu Blyneddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2019, Atodiad 2](#)

95. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar gyllid y sector cyhoeddus, a pheidio â chymryd yn ganiataol y bydd cynnydd mewn cyllid, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc.³⁷

Y Comisiwn Etholiadol

96. Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda wedi eu datganoli Cymru yn cael ei gyllido'n uniongyrchol drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Pwyllgor y Llywydd sy'n gyfrifol am graffu ar amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol. Cyn sefydlu Pwyllgor y Llywydd, ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at y Dirprwy Lywydd i'w gwneud yn ymwybodol o'r Datganiad Egwyddorion. Yn adroddiad Pwyllgor y Llywydd, Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25, mae'n nodi bod y Comisiwn Etholiadol wedi cael gwybod am Ddatganiad Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid y mae disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru roi sylw iddo wrth wneud cynigion cyllidebol.³⁸

Safbwynt y Pwyllgor

97. Mae Cymru wedi gweld degawd o lymdder a chyfyngu ar gyllid y sector cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai cyllidebau/amcangyfrifon Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol adlewyrchu'r materion sy'n cael eu teimlo ledled y sector cyhoeddus ac nad ydynt yn cael eu hystyried ar wahân i gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus eraill. Gan hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio cynnydd mewn cyllid, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc. Mae hyn wedi arwain at y Pwyllgor yn gwthio'n ôl ar godiadau mewn ceisiadau cyllidebau/amcangyfrifon sydd wedi ei gwneud yn ofynnol i Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol addasu neu ailgyflwyno eu cynigion.

98. Mewn perthynas â'r Amcangyfrif a addaswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, nid yw'r Pwyllgor yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn yn y dyfodol, ond mae'n nodi ei bod yn ddefnyddiol i'r amcangyfrif y gofynnwyd amdano (cwmpas y gyllideb) fod ar wahân i'r naratif ategol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu gosod amcangyfrif wedi ei addasu os oes angen, o fewn y

³⁷ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-2020

³⁸ Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2020-21 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25

cyfyngiadau amser y manylir arnynt yn y Rheolau Sefydlog, heb yr angen i adolygu'r naratif cyfan sy'n cyd-fynd ag ef.

99. Mae craffu blynyddol ar Gomisiwn y Senedd wedi canolbwyntio'n benodol ar awdurdodi'r amcangyfrif blynyddol. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda Chomisiwn y Senedd ar 10 Mawrth 2021 i ganolbwyntio'n benodol ar gynllunio tymor canolig, sut gweithredir cynllun a thargedau cynaliadwyedd newydd sydd i fod ar waith o 2021 ymlaen a sut bwriedir i'r rhain ddylanwadu ar wneud penderfyniadau a chyllid: Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd dilyn y cynllunio tymor canolig hwn a sut mae perfformiad ariannol ac effeithlonrwydd yn cael ei fonitro a'i adrodd yn bwysig yn y Chweched Senedd.

100. Mae gofynion y Rheolau Sefydlog ar gyfer cyllidebau/amcangyfrifon atodol Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn amrywio. Gan fod yn rhaid cynnwys cyllideb/amcangyfrif Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yng nghynnig cyllideb atodol Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ddarparu eu cyllideb/amcangyfrif atodol yn gynnar er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y ceisiadau cyn i Lywodraeth Cymru osod ei chyllideb atodol. Mae hyn yn sicrhau nad yw cyllideb atodol Llywodraeth Cymru mewn perygl o gael ei gwrthod ar sail ceisiadau cyllideb atodol Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

101. Er bod hyn wedi gweithio'n dda yn ystod y Pumed Senedd, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ffurfioli'r broses hon mewn Rheolau Sefydlog neu yn y Datganiad Egwyddorion. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol amlinellu amserlenni ar gyfer cyflwyno ac ystyried cyllidebau atodol. Ar ben hynny, nid oes unrhyw beth yn y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd o ran y broses ar gyfer craffu ar gyllideb atodol gan Gomisiwn y Senedd - mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn.

102. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod darparu arweiniad i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i sicrhau bod pob corff yn cymryd agwedd gyson a bod eu ceisiadau cyllidebau/amcangyfrifon yn cael eu gosod yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol yn sector cyhoeddus Cymru yn heriol. Cymhlethir hyn ymhellach gan ddylanwadau ar faint o arian sydd ar gael mewn unrhyw flwyddyn benodol, fel penderfyniadau polisi treth Llywodraeth Cymru a chyhoeddiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gyllid ychwanegol (gan arwain at gyllid canlyniadol i Gymru). Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn falch o nodi, yn ystod cylch Cyllideb 2021-22, fod dogfennaeth cyllidebau/amcangyfrifon pob corff a ariennir yn uniongyrchol yn dangos yr Egwyddorion i ryw raddau a thrafodwyd hyn yn fanylach mewn sesiynau craffu.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ymgymryd â gwaith pellach i ystyried a ddylid adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chyllidebau atodol.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn parhau i adolygu'r Datganiad Egwyddorion yn rheolaidd ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

4. Goblygiadau ariannol biliau

Cefndir

103. Daeth yn arfer safonol i'r Pwyllgor graffu ar oblygiadau ariannol yr holl Filiau a gyflwynir i'r Senedd.

104. Er nad oes rôl benodol i'r Pwyllgor fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol, mae Rheol Sefydlog 19.3 yn nodi:

“Caiff y pwyllgor hefyd ystyried a chyflwyno adrodd ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â threfniadau cyllido neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar drefniadau cyllido neu'r gwariant hwnnw.”

105. Yn 2017, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn yn dilyn argymhellion yn Adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad (argymhelliad 17).

106. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhan o'r gwaith craffu ar 19 darn o ddeddfwriaeth, gan gynnwys craffu ariannol ar 14 o Filiau.

107. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Biliau a ganlyn at y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1:

- Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)
- Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

108. Mae'r Pwyllgor wedi galw'n gyson am ddarparu rhagor o wybodaeth ariannol wedi ei diweddarau ochr yn ochr â Biliau. Fodd bynnag, bu nifer o faterion hefyd sydd wedi dechrau ymddangos yn amlach yng ngwaith y Pwyllgor yn y Chweched Senedd, gan gynnwys dau yn benodol:

- Costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth: mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion, ar draws Biliau, ynghylch diffyg manylion a chostau is-ddeddfwriaeth. Gwnaed yr argymhelliad hwn sawl gwaith yn adroddiad y Pwyllgor ar **oblygiadau ariannol Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** (mis Mawrth 2020). Gwnaed argymhellion tebyg yn dilyn craffu ar y **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)**, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)** a **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**.

- Cynigion ar gyfer diwygiadau yn dilyn Cyfnod 1: Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar ddeddfwriaeth lle mae cynigion ar gyfer diwygiadau neu newidiadau sylweddol wedi eu hamlinellu yng Nghyfnod 1. Gan fod y Pwyllgor yn cynnal ei waith graffu yn ystod Cyfnod 1, ac y pleidleisir ar y penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil, fel rheol, ochr yn ochr â'r egwyddorion cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod 1, mae hyn yn golygu na roddir cyfle i'r Pwyllgor sy'n craffu ar Filiau ystyried y newidiadau hyn yn fanwl. Mae hyn wedi digwydd ar dri achlysur nodedig:
- Bil Senedd ac Etholiadau, lle amlinellwyd trefniadau cyllido'r Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol i'w cynnwys yn ddiweddarach (archwilir hyn ymhellach ym Mhennod 5).
- Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, lle rhoddwyd gwybod i'r Senedd am gynigion i ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa, i'w cynnwys yn y Bil yn ddiweddarach.
- Bil Cwricwlwm ac Asesu, lle na chynhwyswyd gwybodaeth benodol am gost i randdeiliaid yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng Nghyfnod 1 oherwydd y pandemig.

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

109. Amlygodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i wella cyflwyniad a chywirdeb Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn ystod y Senedd hon.³⁹ Cadarnhaodd:

“On two occasions, officials have strengthened the RIA guidance. That, on the first occasion, reflected on the work of the fourth Assembly and the experiences there, and then again, part way through this current term, to incorporate the recommendations that the Finance Committee made in their inquiry into the financial estimates accompanying legislation. So, twice the guidance has been improved.”⁴⁰

110. Dywedodd y Gweinidog fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer pob un o'r Biliau a gyflwynwyd yn ystod y Senedd hon wedi cynnwys tabl cryno sy'n nodi goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth, ac mae bellach yn arfer safonol i ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig gynnwys Asesiad Effaith

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 81

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 81

Rheoleiddiol drafft. Dywedodd fod hynny'n caniatáu i randdeiliaid yn arbennig gael syniad o'r goblygiadau ariannol a herio'r hyn y disgwylir i'r costau fod.⁴¹

111. Dywedodd y Gweinidog y bu gwelliannau yn ystod tymor y Senedd hon, ond nad da lle gellir gwell. Ychwanegodd:

“Looking back at the accuracy of the expected costs is important. That could potentially be done through some of the work through post-implementation reviews, and so on. So, I think that there is scope to do more there.”⁴²

112. Amlygodd y Pwyllgor fod Biliau wedi eu gosod yn y Senedd yn ddiweddar gyda gwelliannau'r Llywodraeth wedi eu bwriadu yng Nghyfnod 2 a/neu gyda meysydd sylweddol o'r Bil yn dod dan is-ddeddfwriaeth heb ei chostio.

113. Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

“The legislation handbook is clear that an RIA for a Bill should, as far as is practicable, include the assessment of any costs of secondary legislation. So, I think it's set out that that should happen. But, as you say, there are sometimes significant changes made at Stage 2 to Bills. Where that does happen, the costs are reviewed and then the Finance Committee is alerted through correspondence, as is the committee that is charged with the oversight of the scrutiny of the particular piece of legislation. But again, if there are things that Finance Committee or other committees think need to change, in terms of your recommendations for the next Senedd, then I'm sure that the Government at that point will be keen to explore those.”⁴³

Adroddiad Archwilio Cymru: Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith

114. Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith. Nodwyd yn yr adroddiad:

“Mae rhoi deddfwriaeth ar waith yn effeithiol yn hollbwysig i ddeddfu da. Os nad yw Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r modd y caiff deddfwriaeth ei rhoi ar waith pan fyddant yn

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 81

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 81

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 84

llunio deddfwriaeth ac yn craffu arni, nid yw'n debygol y bydd yr amcanion polisi'n cael eu gwireddu.”⁴⁴

115. Nodir y canfyddiadau allweddol a ganlyn yn yr adroddiad:

- Nid yw Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif yn ddigonol y costau sydd ynghlwm wrth roi deddfwriaeth ar waith;
- Mae awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau o ran capasiti ac yn ei chael yn anodd rhoi deddfwriaeth newydd ar waith;
- I roi deddfwriaeth ar waith, bydd yn aml angen i Lywodraeth Cymru gynorthwyo awdurdodau lleol a chyhoeddi canllawiau prydlon, ond nid yw'r rhain bob amser ar gael nac yn ddigon clir a chydawns;
- Nid yw gwahanol ddarnau o deddfwriaeth a chanllawiau wedi'u hintegreiddio'n ddigonol i sicrhau bod modd i gyrff cyhoeddus gyflawni eu cyfrifoldebau newydd yn effeithiol ac yn effeithlon.⁴⁵

Safbwynt y Pwyllgor

116. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn croesawu'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r ffordd mae'n cyflwyno gwybodaeth yn ei Hasesiadau Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys darparu gwybodaeth gryno unffurf - dull fel yr amlinellwyd yn [Llawlyfr deddfwriaeth ar filiau'r Cynulliad](#) Llywodraeth Cymru (Mai 2019).

117. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru bellach yn darparu costau gweithredu deddfwriaeth yn ei gwybodaeth gyllidebol, fel sy'n amlwg yn ei [Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22](#).

118. Mae'n bosibl y bydd pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn dymuno cynnal ymchwiliad tebyg i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â'r deddfwriaeth â'r un a gynhaliwyd yn ystod y Pumed Senedd, i ddeall pa gynnydd a wnaed a chyda golwg ar argymell gwelliannau pellach i'r wybodaeth ariannol sydd i'w chael mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.

119. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o arsylwadau yn ystod ei waith craffu ariannol ar Filiau. Amlinellir y rhain isod, a disgwylir y bydd yr holl Filiau a gyflwynir i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, un o Bwyllgorau'r Senedd

⁴⁴ Adroddiad Archwilio Cymru: [Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith](#)

⁴⁵ Adroddiad Archwilio Cymru: [Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith](#)

neu Aelod unigol, yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'n bosibl yr hoffai'r pwyllgor cyfrifol archwilio'r materion hyn fel rhan o adolygiad:

- Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn offeryn allweddol wrth sefydlu polisi. Dylid ei ddefnyddio i asesu'n feirniadol amrywiaeth o ddulliau a darparu sylfaen dystiolaeth i benderfyniadau polisi. Mae'n ymddangos bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn aml yn cael eu llunio yn sgil y broses o wneud penderfyniadau, yn hytrach na llywio'r broses honno.
- Mae cyfle'r Pwyllgor i graffu ar y costau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth yn digwydd yng Nghyfnod 1 ar hyn o bryd. Dylai'r holl wybodaeth berthnasol fod ar gael cyn y gofynnir i'r Senedd bleidleisio ar Benderfyniad Ariannol sy'n ymrwymo adnoddau i'r Bil.
- Mae'r arfer o gyflwyno Biliau gyda'r bwriad o wneud newidiadau sylweddol yn ddiweddarach drwy ddiwygio Bil yn osgoi craffu. Mae hyn yn anfodhaol ac ni ddylai barhau yn y Chweched Senedd.
- Pe bai newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn Cyfnod 1, dylai'r Pwyllgor ystyried y newidiadau hynny'n fwy manwl. Dylai'r Pwyllgor gadw'r hawl i graffu a gofyn am wybodaeth bellach gan yr Aelod â Gofal mewn perthynas ag unrhyw newid dilynol i gostau Bil yn ddiweddarach.
- Pan fydd Biliau yn gofyn am newid y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol dylid gwneud hyn gyda'r un trylwyredd â phan baratowyd y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol gyntaf. Dylai Llywodraeth Cymru wneud unrhyw waith sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3 er mwyn galluogi'r Senedd i gael darlun mor llawn â phosibl o oblygiadau newidiadau. Dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys gwybodaeth am fethodolegau a chynnwys penodol yr adolygiad ôl-weithredu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sefyllfa'r llinell sylfaen y gellir ei defnyddio i fesur ac asesu effaith y Bil.
- Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i fynd gydag unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol.

120. Mae ffurfio Bil mor llawn â phosibl wrth ei gyflwyno yn hanfodol - Cyfnod 1 yw'r cyfle i Bwyllgorau'r Senedd graffu arno, ond hefyd yr adeg pan all rhanddeiliaid wneud sylwadau ar gynnwys y Bil. Mae cyflwyno Bil gyda'r bwriad o wneud newidiadau sylweddol yn tynnu'r cyfle i randdeiliaid ymgysylltu'n effeithiol

â'r Senedd. Wrth gwrs, mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwerth y cyfnodau diwygio, ond mae o'r farn y dylid defnyddio'r cyfnodau hyn i fyfyrio ar dystiolaeth Cyfnod 1 a gwneud newidiadau i Fil gan ddefnyddio canlyniadau gwybodus gwaith craffu Cyfnod 1.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gwneud gwaith pellach i wella ansawdd yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys mewn Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol.

5. Deddfwriaeth heblaw gan y Llywodraeth

Biliau Pwyllgor

Nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd:

26.81 Caiff unrhyw bwyllgor gyflwyno Bil pwyllgor sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y pwyllgor.

121. Hyd yma, y Pwyllgor Cyllid yw'r unig Bwyllgor sydd wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon i gyflwyno bil - sef Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (y Bil) - ers i'r Senedd sicrhau pwerau deddfu sylfaenol llawn.

122. Cymerodd bedair blynedd i ddatblygu a phasio'r Bil, ac roedd yn swm sylweddol o waith a oedd yn rhychwantu dau dymor seneddol. Gan hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddoeth myfyrio ar ei brofiad o ddatblygu Bil pwyllgor a'i lywio drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

123. Cafodd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ei sefydlu gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Er 2013, bu galwadau am ymestyn pwerau rôl yr Ombwdsmon mewn pum prif faes gan yr Ombwdsmon blaenorol, Peter Tyndall, a'r Ombwdsmon cyfredol, Nick Bennett.

124. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n fwy priodol i'r Senedd arwain ar unrhyw newid deddfwriaethol gan fod y Llywodraeth yn gorff cyhoeddus sy'n destun gwaith craffu gan yr Ombwdsmon.

Datblygu'r Bil

125. Dechreuodd y gwaith ar y Bil yn 2015, gyda Phwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ei ymchwiliad i'r cynigion i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon. Cafodd y Pwyllgor ei argyhoeddi gan y dystiolaeth a glywodd, ac ymgynghorodd ar y Bil drafft ym mis Hydref 2015. O ystyried yr amser cyfyngedig a oedd ar gael yn y Pedwerydd Cynulliad i Fil gwblhau ei daith ddeddfwriaethol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Pwyllgor yn y dyfodol gyflwyno'r Bil, a hynny cyn gynted â phosibl.

126. Cyn penderfynu cyflwyno'r Bil ym mis Hydref 2017, ceisiodd y Pwyllgor hwn wybodaeth ariannol gadarn i ategu'r ymyriad ddeddfwriaethol. Cymerodd

dystiolaeth gan yr Ombwdsmon ac ystyriodd yr amcangyfrifon o gostau a buddion y darpariaethau newydd. Cafwyd trafodaethau hefyd rhwng yr Aelod â Gofal⁴⁶ a Llywodraeth Cymru cyn ac ar ôl cyflwyno'r Bil.

Newidiadau i Reolau Sefydlog

127. Bryd hynny, roedd y Rheolau Sefydlog yn caniatáu i fil pwyllgor osgoi'r broses o gael ei gyfeirio'n awtomatig i Bwyllgor cyfrifol, er mwyn i'r Pwyllgor hwnnw gael ystyried ac adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol. Y rheswm pam nad yw pwyllgorau'n ystyried Biliau o'r fath yng Nghyfnod 1 yw am fod pwyllgor sy'n cyflwyno Bil sy'n ymwneud â'i gylch gwaith yn debygol o:

- fod wedi cwblhau o leiaf un ymchwiliad i bolisi cyhoeddus a/neu ymgynghoriad ar yr angen am ddeddfwriaeth; ac yn debygol o
- fod mewn gwell sefyllfa nag unrhyw bwyllgor arall (y câi Bil pwyllgor ei gyfeirio ato fel arall) i benderfynu ynghylch yr egwyddorion cyffredinol, felly mae'n bosibl na fyddai ymchwiliad Cyfnod 1 yn ychwanegu llawer o werth.

128. Fodd bynnag, er mwyn hyrwyddo arfer gorau a thryloywder, ac yn sgil y ffaith bod gwaith drafftio'r Bil wedi digwydd dros ddau dymor senedd gwahanol, cynigiodd yr Aelod â gofal y dylai Aelodau gael cyfle i ystyried ac adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol. O ganlyniad, cafodd Rheol Sefydlog 26.82 ei dileu⁴⁷. Cyfeiriwyd y Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a bu'n destun gwaith craffu llawn yng Nghyfnod 1. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil a'i oblygiadau ariannol. O gofio bod yr olaf o'r rhain fel arfer yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cyllid, penododd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gynghorwr arbenigol i helpu gyda'i waith craffu ar oblygiadau ariannol y Bil.

129. Er bod y Rheolau Sefydlog wedi eu diwygio i hwyluso craffu llawn yng Nghyfnod 1 ar y Bil hwn, mae'r rhesymeg dros osgoi trafodaeth pwyllgor yng Nghyfnod 1 yn parhau i fod yn ddilys. Wrth ofyn am gael atgyfeirio'r Bil ar gyfer craffu llawn yng Nghyfnod 1, nid bwriad y Pwyllgor oedd ceisio dileu Rheol Sefydlog 26.82. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai osgoi craffu yng Nghyfnod 1 barhau i fod yn sefyllfa ddiodyfyn ar gyfer Biliau Pwyllgorau, oni bai bod y pwyllgor yn gofyn yn wahanol. Fodd bynnag, effaith dileu Rheol Sefydlog 26.82 yw bod y Pwyllgor Busnes bellach yn penderfynu a ddylid cyfeirio unrhyw Fil Pwyllgor yn y dyfodol at

⁴⁶ Awdurdododd y Pwyllgor Cyllid Gadeirydd y Pwyllgor fel yr 'Aelod â gofal' dros y Bil.

⁴⁷ [1 Drwy benderfyniad y Cynulliad ar 27 Medi 2017](#)

bwyllgor cyfrifol i adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol, ynteu osgoi atgyfeirio a symud ymlaen yn syth i ddadl Cyfnod 1.

130. Mae'r broses o baratoi Bil drafft Pwyllgor yn golygu defnyddio cryn dipyn o amser y Senedd a rhanddeiliaid er mwyn archwilio'r angen am ddeddfwriaeth a chynnal ymgynghoriadau ar Fil drafft, ac os yw'r Llywodraeth yn rhan o'r gwaith a wneir ar Fil cyn iddo gael ei gyflwyno, gallai'r broses o gyfeirio Bil yn awtomatig at Bwyllgor ar gyfer gwaith craffu yng Nghyfnod 1 fod yn ddefnydd aneffeithlon o amser Pwyllgor.

131. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen ystyried yn ofalus bwrpasau ac oblygiadau cyfeirio Biliau Pwyllgor yn y dyfodol ar gyfer ystyriaeth pwyllgorau yng Nghyfnod 1, yn enwedig lle mae'r pwyllgor sy'n cynnig y Bil wedi ymgynghori'n sylweddol a lle mae testun y Bil yn benodol neu'n gyfyng.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn adolygu'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chyfeirio Biliau Pwyllgor i'w hystyried gan Bwyllgorau yng Nghyfnod 1.

Amserlen

132. Ceisiodd y Pwyllgor Cyllid amseru'r broses o gyflwyno'r Bil i gyd-fynd â chyfnod cyfleus o ran llwyth gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Dilynodd arfer gorau drwy hwyluso proses hirach yng Nghyfnod 1, a hynny er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor a oedd yn craffu ar y Bil gynnal ymgynghoriad llawn, a chaniatáu iddo wneud gwaith arall y Pwyllgor ar yr un pryd.

133. Wrth ystyried amserlen y Bil, ymgynghorodd y Pwyllgor â Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau drwyddi draw, i leihau'r pwysau ar lwyth gwaith ac adnoddau.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru

134. Cytunodd y Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil ar 21 Mawrth 2018. Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ailedrych ar y costau a oedd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y byddai angen mynd i'r afael â nifer o faterion polisi a materion drafftio cyn y gallai gefnogi'r Bil.

135. Gan mai dim ond Gweinidog all gynnig penderfyniad ariannol, roedd ennill cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn hanfodol i sicrhau bod y Bil yn pasio Cyfnod 1. Roedd y broses o sicrhau y byddai'r Gweinidog yn cytuno i gynnig y Penderfyniad Ariannol yn cynnwys diwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn y ddadl dan sylw

(cam nad yw fel arfer yn cael ei gymryd nes bod trafodion Cyfnod 2 wedi eu cwblhau). Gan fod Rheol Sefydlog 26.74(i) yn ei gwneud yn ofynnol bod hysbysiad ynglŷn â phenderfyniad ariannol yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis ar ôl cwblhau Cyfnod 1, roedd y Pwyllgor yn wynebu'r her o adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a sicrhau bod y Senedd yn cymeradwyo'r penderfyniad ariannol cyn toriad yr haf 2018.

136. Er y bu rhywfaint o gyswllt rhwng cyfreithwyr Llywodraeth Cymru a'r Senedd, ni ddechreuodd trafodaethau manwl rhwng swyddogion i nodi pa newidiadau oedd yn ofynnol i'r Bil ac i'r amcangyfrifon cost tan fis Mai 2018. Roedd hyn yn golygu bod angen gwaith sylweddol cyn y ddadl ar y penderfyniad ariannol, y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w hamserlennu ar 17 Gorffennaf 2018.

137. Ymrwymodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol i weithio gyda'r Gweinidog er mwyn symud y Bil yn ei flaen mewn modd a oedd yn foddhaol i'r Pwyllgor Cyllid ac i Lywodraeth Cymru. Roedd y broses hon yn cynnwys cryn dipyn o ymgysylltu rhwng swyddogion y Senedd a swyddogion Llywodraeth Cymru yn dilyn Cyfnod 1. Yn ogystal â helpu'r broses o ateb cwestiynau ynghylch goblygiadau ariannol y Bil a sylwadau Llywodraeth Cymru amdano, fe wnaeth hyn sicrhau bod y dull gweithredu yn un cydgysylltiedig, a bod dyddiadau targed a cherrig milltir yn cael eu cyrraedd.

138. Cyflwynwyd cyfanswm o 230 o welliannau yng Nghyfnod 2, a 49 o welliannau yng Nghyfnod 3. Er mwyn osgoi llwyth gwaith mor drwm i bawb sy'n ymwneud â'r broses, byddai'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n gynt yn y broses o ddatblygu Biliau Pwyllgor drafft.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ceisio ymgysylltu'n gynnar â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Bil Pwyllgor drafft a'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, er mwyn cynyddu'r cyfle i ddatrys materion cyn ei gyflwyno ac i wella effeithlonrwydd y broses ddeddfwriaethol.

Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru)

139. Sefydlodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus) gyfrifoldebau newydd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru, sefydlodd Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol a threfniadau llywodraethu rhagnodedig ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â'r berthynas rhwng y naill a'r llall.

140. Dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru a'r cyn-Archwilydd fynegi pryderon ynghylch y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus gyda'r Pwyllgor Cyllid blaenorol, yn benodol mewn perthynas â'r darpariaethau ynghylch codi ffioedd.

141. Yn 2019, cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus ac ystyried yr achos dros ddiwygio'r ddeddfwriaeth drwy ei ymchwiliad 'Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013'.

142. Yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, ni chododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd bryderon sylweddol ynghylch y cynigion, gan gadarnhau ym Mehfin 2019 ei chytundeb eang â'r gwelliannau arfaethedig. Ym mis Gorffennaf 2019 nododd y Gweinidog newidiadau arfaethedig cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru:

"I think that we're comfortable with all of the suggestions that have been made in terms of improving the legislation."⁴⁸

143. Adroddodd y Pwyllgor ar ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr 2019 ac ymgynghori wedi hynny ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft. Er bod y Pwyllgor yn ymwybodol bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod eu pryderon ynghylch y newidiadau polisi a gynigiwyd yn y Bil drafft gyda swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft hwnnw.

144. Ar 10 Mawrth 2021, amlinellodd y Gweinidog y rhesymau dros beidio ag ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft:

"The reason why we were unable to respond to the consultation at the time was essentially a timing issue, because it was in that period when we were expecting to leave the EU, and all of our efforts were focused, then, on potentially preparing Wales for a 'no deal' scenario. So, unfortunately, it was related to timing, but there were meetings that took place to explore this issue further, and the Welsh Government did provide feedback to Audit Wales on the proposed changes, and I know officials had a number of opportunities to discuss the potential implications.

We're in agreement with some of the proposals, but did feel that further discussions were needed on a number of issues, and our concerns were shared with the committee, so that you were aware of them. We also expressed some doubt as to whether or not it would be possible to legislate during this current term of Government, just given all of the pressures of the other legislation, and of course this was before COVID came along as well. So, that essentially sets out where we

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Gorffennaf 2019, paragraff 212

are. We see merit in some of the proposals, but have some concern that there should be further discussions around, for example, the interim report, the laying of the Audit Wales accounts, and some of the other areas that were being proposed.”⁴⁹

145. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor wedi adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw ac wedi gwneud yr argymhelliad a ganlyn:

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai pwyllgor Senedd yn y dyfodol ystyried y gwaith craffu ar ôl deddfu a wnaed, gyda'r bwriad o gyflwyno'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn cyn gynted â phosibl yn y Chweched Senedd, yn amodol ar ystyried materion sydd heb eu datrys, barn ffurfiol Llywodraeth nesaf Cymru a datblygu Memorandwm Esboniadol gydag Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn.

Biliau'r Comisiwn

Nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd:

26.84 Caiff y Comisiwn gyflwyno Bil sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn.

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

146. Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol unig Fil Comisiwn y Pumed Senedd, sef y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

147. Pan gyflwynwyd y Bil, roedd adran 27 yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig. Fodd bynnag, nid oedd y Bil yn cynnwys manylion ynghylch sut dylai'r Senedd ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio hyn.

148. Yn fuan ar ôl ei gyflwyno, ysgrifennodd y Llywydd (fel Aelod â Gofal) at y Pwyllgor yn nodi ei bwriad i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, pe bai'r Senedd o blaid cam o'r fath, i sefydlu trefniadau i'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Senedd, a bod yn atebol iddi.

⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraffau 88-89

149. Trafododd adroddiad cynharach y Pwyllgor ar Amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda'r ddeddfwriaeth ym mis Hydref 2017, bryderon mewn perthynas â llai o gyfle i graffu ar oblygiadau ariannol newidiadau a wnaed ar ôl Cyfnod 1. Gwnaed yr argymhelliad a ganlyn yn yr adroddiad:

“Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol roi crynodeb i'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgor craffu perthnasol o unrhyw newidiadau i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2, gan gynnwys y goblygiadau ariannol.”

150. Yn adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) amlygwyd pryderon ynghylch anghysondebau gyda'r wybodaeth ariannol a ddarparwyd, a arweiniodd at gyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, a drafodwyd cyn cytuno ar y penderfyniad ariannol. Ar yr achlysur hwnnw, gofynnodd y Pwyllgor i'r Aelod â Gofal ddarparu manylion am sut roedd yr wybodaeth ariannol yn y fersiwn ddiwygiedig wedi newid. Yn dilyn hynny, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog, yn ogystal â chan randdeiliad allweddol a oedd wedi dadlau yn erbyn yr arbedion disgwylidig a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

151. Er bod y Llywydd a'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi'r dewisiadau a ffafrir ganddynt ar gyfer cyllido'r Comisiwn Etholiadol tuag at ddiwedd ffenestr graffu Cyfnod 1, nid oedd hynny'n rhoi digon o amser i'r Pwyllgor archwilio'r materion cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd. Yn Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor mynegwyd siom nad oedd y maes polisi hwn wedi ei ddatblygu ymhellach cyn cyflwyno'r Bil, a phwysodd y Pwyllgor am gyfle pellach i ystyried goblygiadau ariannol unrhyw welliant cyn trafodion Cyfnod 2.

152. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Llywydd i geisio rhagor o wybodaeth a'i hannog hi, mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, i ystyried peidio â cheisio cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer penderfyniad ariannol. Yn ystod y ddaid Cyfnod 1, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai'n oedi cyn cynnig y Penderfyniad Ariannol nes byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i ystyried y diwygiadau drafft a'u goblygiadau o ran cost.

153. Lluniodd y Pwyllgor adroddiad atodol yn dilyn sesiynau tystiolaeth ychwanegol gyda'r Llywydd a'r Cwnsler Cyffredinol i graffu ar oblygiadau ariannol y diwygiadau arfaethedig. Er na ddaeth gwybodaeth ariannol fanwl gyda diwygiadau drafft y Cwnsler Cyffredinol, roedd gohebiaeth ddilynol yn egluro costau ariannol y diwygiadau arfaethedig cyn i'r penderfyniad ariannol gael ei gynnig.

154. Er bod y Pwyllgor yn disgwyl i Filiau gael eu ffurfio'n llawn wrth eu cyflwyno, mae'n derbyn y gall fod adegau pan fydd newidiadau gan yr Aelod â Gofal ar ôl eu cyflwyno yn cael effaith sylweddol ar yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Os amlinellir newidiadau sylweddol yn ystod gwaith craffu ariannol Cyfnod 1 ar filiau'r dyfodol, dylid rhoi cyfle i'r pwyllgor cyfrifol ystyried y goblygiadau ariannol hyn cyn i'r Senedd gymeradwyo'r penderfyniad ariannol.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn cynnal gwaith craffu ychwanegol ar unrhyw newid sylweddol i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â Biliau yn y dyfodol, gan gyflwyno sylwadau i'r Aelod â gofal i ohirio'r penderfyniad ariannol, neu gynnal gwaith craffu ychwanegol yn ddiweddarach yn y broses ddeddfwriaethol os oes angen.

Biliau Aelodau

Nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd:

26.91 O fewn 25 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot, caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Senedd gytuno iddo gyflwyno Bil Aelod.

155. Cynhaliodd y Llywydd dair pleidlais ar gyfer Biliau Aelodau yn ystod y Pumed Senedd.

Bil Awtistiaeth (Cymru)

156. Dim ond un Aelod a lwyddodd i sicrhau cytundeb y Senedd i gyflwyno Bil Aelod yn y Pumed Senedd. Cyflwynwyd y Bil Awtistiaeth (Cymru) gan Paul Davies AS ym mis Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, ni chytunodd y Senedd â'r egwyddorion cyffredinol a gwrthodwyd y Bil ym mis Ionawr 2019.

157. Archwiliodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil, ac adroddwyd bod y diffyg gwybodaeth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch cost gwasanaethau Anhwylderau'r Sbectwm Awtistiaeth yn golygu nad oedd y Pwyllgor yn gallu craffu ar y ffigurau a gyflwynwyd gan yr Aelod â Gofal. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn:

Casgliad 4. Nid yw'r Pwyllgor yn gallu gwneud penderfyniad ar ddilysrwydd yr Aseiad Effaith Rheoleiddio hwn. Nid yw'r Aelodau wedi cael unrhyw reswm ariannol sylweddol i'r ddeddfwriaeth beidio â symud yn ei blaen, ond nid ydym wedi gallu pennu a oes unrhyw werth

am arian yn y ddeddfwriaeth hon oherwydd diffyg y wybodaeth ariannol.

158. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod methiant Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth wedi rhwystro'r broses graffu a photensial y ddeddfwriaeth arfaethedig, gan osod cynsail pryderus. Gan hynny, argymhellodd:

Argymhelliad 1. Yn y dyfodol, pe bai'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid y cynnig a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddarparu i sicrhau bod y costau mewn memorandwm esboniadol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth am gost sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

159. Yn dilyn hynny ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog yn manylu ar ei bryderon ynghylch diffyg ymgysylltu Llywodraeth Cymru â Biliau heblaw rhai'r Llywodraeth. Yn ei ymateb, dywedodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn rhannu data i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar yr amod ei fod yn cael ei gadw'n ganolog, ar gael yn rhwydd ac nad oes rhwystrau o ran rhannu'r data (er enghraifft, diogelu data).

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn adolygu'r broses ar gyfer cyflwyno Biliau Aelodau i sicrhau ei fod yn gwneud y mwyaf o'r cyfle a gyflwynir i'r Aelodau a ddewisir drwy bleidlais, yn hwyluso craffu effeithiol ac yn defnyddio amser y Senedd yn effeithlon.

6. Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Trosolwg o gyfrifoldebau

160. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn rhoi nifer o swyddogaethau i'r Senedd. Yn ystod y Pumed Senedd, mae'r swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwyllo Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwn. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Rheolau Sefydlog 18.10-11 ac maent yn cynnwys arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â:

- chymeradwyo amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru o incwm a gwariant, cynigion cyllideb atodol a'r cynllun ffioedd;
- ystyried y Cynllun Blynyddol, yr Adroddiad Interim, a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a chyflwyno adroddiad arnynt;
- cynghori'r Senedd ar benodi a diswyddo'r Archwilydd a chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru;
- penodi a diswyddo aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru a dynodi Archwilydd dros dro;
- y trefniadau tâl a thelerau penodi eraill o ran yr Archwilydd Cyffredinol, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac aelodau anweithredol eraill o Swyddfa Archwilio Cymru;
- penodi archwilwyr ar gyfer cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru;
- ystyried adroddiadau a baratoir gan archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru

161. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal gwaith craffu blynyddol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, i archwilio:

- Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau (sydd fel arfer yn cael ei osod ym mis Hydref);
- Cynllun Ffioedd Drafft (sydd fel arfer yn cael ei osod ym mis Hydref);
- Cynllun Blynyddol (sydd fel arfer yn cael ei osod ym mis Mawrth);

- Adroddiad Dros Dro (sydd fel arfer yn cael ei osod ym mis Hydref);
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon (sydd fel arfer yn cael eu gosod ym mis Mehefin); ac
- Adroddiad archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru (sydd fel arfer yn cael ei osod ym mis Mehefin).

162. Yn gyffredinol, mae hyn wedi golygu cynnal un sesiwn dystiolaeth flynyddol yn ystod tymor yr hydref i fynd gyda gosod yr amcangyfrif o incwm a threuliau. Fodd bynnag, cynhaliwyd y gwaith craffu mewn dwy ran yn 2018 a 2020, er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor glywed gan yr Archwilydd Cyffredinol presennol a newydd a'r Cadeirydd presennol a newydd yn eu tro. Roedd hyn yn gyfle i fyfyrion ar ddeiliadaeth y deiliaid swyddi yn ogystal â chraffu ar y dogfennau penodol roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Argymhelliad 18. Wrth ystyried ei ffyrdd o weithio, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn adolygu'r dull a ddefnyddir i graffu ar y gwahanol gyhoeddiadau a osodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn i gadarnhau bod y dull hwn yn parhau i fod yn addas.

Penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru

163. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn benodiad y Goron a wneir drwy enwebiad gan y Senedd o dan Adran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r penodiad am gyfnod o wyth mlynedd, ac ni ellir adnewyddu'r penodiad.

164. Yn 2018, y Pwyllgor oedd yn gyfrifol am gyngori'r Senedd ar benodi'r Archwilydd Cyffredinol am y tro cyntaf o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Roedd deiliad y swydd ar y pryd, Huw Vaughan Thomas, yn Archwilydd Cyffredinol Cymru er 1 Hydref 2010 ac ymddeolodd ar 20 Gorffennaf 2018.

Y broses recriwtio

165. Hysbysebwyd y rôl am gyfnod o bedair wythnos, rhwng 9 Hydref 2017 ac 8 Tachwedd 2017. Er mwyn annog maes cryf ac amrywiol o ymgeiswyr, hysbysebwyd y rôl gan ddefnyddio cyfuniad o brint caled, cyhoeddiadau electronig, cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau personol.

166. Cafwyd un ar ddeg o geisiadau, gan ddwy fenyw a naw dyn. Cafodd pump o'r un ar ddeg ymgeisydd le ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad gan y panel (a oedd yn cynnwys dau Aelod o'r Senedd, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol yr Alban).

167. Fe wnaeth y panel argymhelliad i'r Pwyllgor ar yr ymgeisydd a ffafrir i'w enwebu, a chynhaliodd y Pwyllgor broses cyn enwebu, gan gynnwys gwrandawriad cyn enwebu gyda'r ymgeisydd a ffafrir. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yr ymgeisydd a ffafrir yn addas i'w enwebu i'w Mawrhydi i'w benodi'n Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cytunodd y Senedd ar yr enwebiad ar **14 Mawrth 2018**.

168. Er nad yw tymor swydd presennol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dod i ben tan ddechrau'r Seithfed Senedd (Gorffennaf 2026), bydd angen i'r pwyllgor cyfrifol gynghori'r Senedd ar benodi'r Archwilydd Cyffredinol nesaf cyn diddymu'r Chweched Senedd.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried cyflogi ymgynghorydd recriwtio gyda rhwydweithiau eang o weithwyr proffesiynol, i gynorthwyo'r gwaith o gyrchu a nodi ymgeiswyr â chymwysterau addas i fodloni'r gofynion ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Trefniadau tal

169. Yn unol ag adran 7 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, cytunodd y Pwyllgor ar y trefniadau tâl cyn hysbysebu swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Medi 2017), ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru. Cytunodd y Pwyllgor i hysbysebu'r swydd gyda chyflog o £142,000, a fyddi'n cael ei addasu yn unol â threfniadau ar gyfer gwaelod band tâl Ysgrifennydd Parhaol, yn unol ag adroddiad blynyddol y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

170. Ym mis Gorffennaf 2018, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad cyfrifoldeb y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion oedd cynghori ar fand tâl yr Ysgrifennydd Parhaol, a bod y cyfrifoldeb hwnnw, bellach, yn nwylo Pwyllgor Taliadau'r Ysgrifennydd Parhaol, sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Prif Weinidog y Deyrnas Unedig sy'n gwneud y penderfyniad yn flynyddol ynghylch a ddylid addasu'r band tâl.

171. Fe wnaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig godi gwaelod band tâl Ysgrifennydd Parhaol o £142,000 i £150,000. Gwnaed y penderfyniad ym mis Hydref 2017 a chafodd yr addasiad i'r band tâl ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 2017.

172. Er bod cyflog cychwynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi aros ar £142,000, fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ac fel yr hysbysebwyd, golygodd y newidiadau a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'r band tâl fod cyflog Archwilydd Cyffredinol Cymru yn codi i waelod band tâl Ysgrifennydd Parhaol (£150,000 ar hyn o bryd) flwyddyn ar ôl dyddiad penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn dilyn hynny, bydd newidiadau cyflog yn cael eu cymhwysu'n flynyddol, ar ddyddiad y penodiad i adlewyrchu gwaelod band tâl Ysgrifennydd Parhaol (os bydd y band hwn yn newid).

173. Mae adran 7(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau tâl (a allai gynnwys fformiwla neu fecanwaith ar gyfer addasu'r trefniadau hynny o dro i dro (adran 7(3)(b)) gael eu gwneud cyn i unigolyn gael ei benodi'n Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gan hynny, ni all y Pwyllgor newid mecanwaith cyflog Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ôl ei benodi.

Argymhelliad 20. Wrth bennu'r trefniadau tâl ar gyfer penodiadau yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn osgoi cysylltu tâl Archwilydd Cyffredinol Cymru â graddfa gyflog y cytunwyd arni gan gorff allanol.

Penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru

174. Mae Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad benodi pum aelod anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Mae penodi aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor yn y Rheolau Sefydlog.

175. Mae penodiad fel aelod anweithredol yn para hyd at bedair blynedd, ac ni ellir penodi unigolyn fwy na dwywaith (paragraff 6 o Atodlen 1). Mae paragraff 5 o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr aelodau anweithredol, a chaiff y Senedd estyn penodiad y Cadeirydd am ail dymor yn y swydd.

176. Yn ystod y Pumed Senedd, mae'r Pwyllgor wedi cynnal tri ymarfer recriwtio i benodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru.⁵⁰ Manylir ar benodiadau'r Pwyllgor isod:

⁵⁰ [Corffennaf 2017](#) (Gweler hefyd [Awst 2017](#)), [Ionawr 2019](#) a [Medi 2020](#)

Aelod Anweithredol	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Isobel Everett		Wedi ei ymestyn fel Cadeirydd am dair blynedd			<i>Daeth yr ail dymor i ben</i>
Steve Burnett		Ailbenodwyd am bedair blynedd	<i>Ymddiswyddodd</i>		
David Francis			Penodwyd am bedair blynedd		
Bill Richardson		Penodwyd am bedair blynedd			<i>Ymddiswyddodd</i>
Alison Gerrard		Penodwyd am bedair blynedd			
Lindsay Foyster			Ailbenodwyd am bedair blynedd		Penodwyd yn Gadeirydd
Elinor Gwynn					Penodwyd am bedair blynedd
Ian Rees					Penodwyd am bedair blynedd

177. O ystyried amseriad Etholiadau'r Senedd, fe wnaeth y Pwyllgor gynnwys y swydd wag sydd ar ddod yn 2021-22 fel rhan o'i ymarfer recriwtio ym mis Medi 2020, a chytunodd y Senedd wedi hynny i ailbenodi Alison Gerrard ar gyfer ail dymor yn y swydd. Manylir ar y swyddi gwag a ragwelir yn ystod y Chweched Senedd isod (yn amodol ar unrhyw newid i aelodaeth gyfredol Swyddfa Archwilio Cymru).

Aelod Anweithredol	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Lindsay Foyster (Cadeirydd)		<i>Daw'r ail dymor i ben</i> Cyfle i recriwtio			
David Francis		Cyfle i recriwtio neu ailbenodi			
Alison Gerrard	Ailbenodwyd am bedair blynedd gan y Pumed Senedd				<i>Daw'r ail dymor i ben</i> Cyfle i recriwtio
Elinor Gwynn				Cyfle i recriwtio neu ailbenodi	
Ian Rees				Cyfle i recriwtio neu ailbenodi	

178. Myfyriodd y Pwyllgor ar ei rôl yn goruchwylio penodi aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'i waith [craffu ôl-ddeddfwriaethol](#) ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a chytunwyd y dylid symleiddio'r darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi ac ailbenodi'r Cadeirydd ac aelodau anweithredol.

179. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth fel bod y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl ymestyn penodiad y Cadeirydd am ail dymor o hyd at bedair blynedd hefyd ar gael i'r aelodau anweithredol, ar yr amod eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau'n dderbyniol. Mae'r cynnig hwn wedi ei gynnwys ym Mil drafft Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) a drafodir ym Mhennod 5.

Penodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru

180. Mae paragraff 34(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd benodi unigolyn yn archwilydd cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac i bennu telerau'r penodiad. Mae paragraff 34(2) yn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru argymhell unigolyn i'w benodi. Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn dirprwyo cyfrifoldeb am benodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor.

181. Penododd y Pwyllgor archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2018, gan awdurdodi'r Swyddfa Archwilio i gynnal ymarfer caffael a chyflwyno'r cynigydd llwyddiannus i gael ei gymeradwyo a'i benodi gan y Senedd, gyda'r gwaith o oruchwyllo'r broses yn cael ei ddirprwyo i swyddogion Comisiwn y Senedd. Cytunodd y Pwyllgor i benodi'r cyflenwr o ddewis Swyddfa Archwilio Cymru, RSM, fel archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru am gyfnod o bedair blynedd, gan ddechrau ar 1 Tachwedd 2018.

182. Yn ystod gwaith crffu ôl-ddeddfwriaethol y Pwyllgor ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru fod cymhlethdodau cytundebol sylweddol yn codi oherwydd bod yr awdurdod penodi (y Senedd) a'r cleient (Swyddfa Archwilio Cymru) yn gyrff gwahanol. Mae hyn yn golygu bod angen paratoi trefniadau cytundebol tairochrog, gan gynnwys cytundeb ategol i gynnwys, er enghraifft, darparu indemniad pe bai Swyddfa Archwilio Cymru yn methu â thalu tâl yr archwilydd.⁵¹

183. Amlygodd Comisiwn y Senedd hefyd bod angen i'w dîm Gwasanaethau Cyfreithiol "ymgymryd â chryn dipyn o waith mewn perthynas â phenodi archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru". Roedd hyn oherwydd natur dairochrog y trefniant ac roedd yn cynnwys, ar gyfer proses benodi 2018, gyngor cyfreithiol allanol arbenigol a gostiodd £19,500.⁵²

184. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad na wnaed y defnydd gorau o arian cyhoeddus drwy wario'n sylweddol ar gyngor cyfreithiol, a chynigiodd broses ddiwygiedig sy'n caniatáu i'r Swyddfa Archwilio benodi ei harchwilwyr allanol yn uniongyrchol, wrth gynnal rôl i'r Senedd wrth gymeradwyo'r penodiad hwnnw a chytuno ar y telerau ac amodau cysylltiedig a'r broses mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ei defnyddio i gaffael ei harchwilwyr. Mae'r cynnig hwn wedi ei gynnwys yn y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft a drafodir ym Mhennod 5.

⁵¹ PAWA 05 Tystiolaeth ysgrifenedig: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

⁵² Llythyr gan Comisiwn y Senedd, 27 Mehefin 2019

7. Ymchwiliadau'r Pwyllgor

Cefndir

185. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal amrywiaeth o ymholiadau dros y Pumed Senedd yn ychwanegol at ei waith ar y gyllideb a gwaith craffu deddfwriaethol, gan gynnwys:

- [Amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth](#) (Hydref 2017)
- [Paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru](#) (Medi 2018)
- [Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio](#) (Hydref 2018)
- Rhoi datganoli cyllidol ar waith ([Mawrth 2018](#) a [Mawrth 2019](#))
- [Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru](#) (Tachwedd 2019)
- [Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol](#) (Gorffennaf 2020)
- [Ymchwiliad i broses deddfwriaethol ar gyfer y gyllideb](#) (Awst 2020)
- [Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol](#) (Chwefror 2021)

186. Yn yr adroddiadau a restrir uchod, a lle derbyniwyd ymateb, derbyniwyd y cyfan namyn un o argymhellion y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru (neu fe'u derbyniwyd mewn egwyddor). Ymdrinnir â mwy o fanylion am rai o'r ymchwiliadau hyn mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

187. Mae rhestr lawn o adroddiadau'r Pwyllgor a'r ymatebion iddynt ar gael ar [dudalen we'r pwyllgor](#).

Data ac ymchwil

188. Mae nifer o argymhellion y Pwyllgor wedi ymwneud â'r angen am ddata a/neu ymchwil penodol i Gymru. Er enghraifft, yn ei adroddiad, [Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol](#), nododd y Pwyllgor:

“I ddeall y sylfaen drethu yng Nghymru yn llawn, ac i hyrwyddo gwaith datblygu a gwaith ymchwil ar ymatebion trethdalwyr i wahaniaethau o ran treth, mae'n glir fod angen datgloi data sy'n benodol i Gymru, fel data ar wahanol fandiau incwm aelwydydd.”

189. Yn ei hymateb i'r Adroddiad, dywedodd y Gweinidog fod y "gwaith o ddatblygu arolygon newydd a gwella data sy'n benodol i Gymru yn gofyn am lawer o adnoddau ac fel arfer yn cymryd llawer o amser" a bod "casglu gwybodaeth gywir a chynhwysfawr am incwm drwy gynnal arolygon ystadegol yn cymryd llawer o adnoddau". Fodd bynnag, nododd "mae data gweinyddol yn tueddu i fod yn fwy defnyddiol ar gyfer astudio effaith amrywiadau treth incwm", a'r ffynhonnell ddata fwyaf defnyddiol yn y Deyrnas Unedig yw'r Arolwg o Incwm Personol (SPI) a ddarperir gan Gyllid a Thollau EM. Amlygwyd mai'r set ddata hon, "ynghyd ag alldro cyfraddau treth incwm Cymru, fydd y data allweddol ar dreth incwm sy'n benodol i Gymru".

190. Nododd y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwil gydag Is-adran Gwybodaeth, Dadansoddi a Chudd-wybodaeth (KAI) Cyllid a Thollau EM ar amcangyfrif effeithiau ymddygiadol dargyfeirio treth er mwyn rhoi cyfrif gwell am wahaniaethau treth is-DU.

191. Adroddodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru, gyda Llywodraeth yr Alban, "wedi ymgysylltu â CThEM ynglŷn â'r angen posibl am set ddata hydredol, er mwyn gallu gwneud gwaith ymchwil mwy soffistigedig i effaith ymddygiadol newidiadau treth incwm a gwahaniaethau posibl yn y DU". Nododd bod hwn yn "ddarn technegol o waith" ac mae'n "debygol y bydd y gwaith datblygu... yn cymryd peth amser" o ystyried ei gymhlethdod.

192. Cydnabu'r Gweinidog y byddai'r set ddata hydredol o dalwyr treth incwm yn darparu ffynhonnell ddata newydd wirioneddol werthfawr, ond ychwanegodd:

"It is a long-term project, and there are still some uncertainties about the extent to which it will yield useful results. So, at the moment, we're at the very start of that particular road."⁵³

193. O ran sbarduno gwelliannau yn nata economaidd, gwariant a refeniw Cymru, amlygodd y Gweinidog nifer o ddatblygiadau allweddol yn ystod y Pumed Senedd, gan gynnwys:

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi ystadegau cyllid sector cyhoeddus blynyddol fesul gwlad a rhanbarth;

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 128

- Data Cyllid a Thollau EM o'i systemau gwybodaeth amser real, sy'n ffurfio 'prif gydran' cyfres fisol Llywodraeth Cymru o ystadegau am y farchnad lafur;
- Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi ystadegau amserol a chynhwysfawr ar y refeniw o'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi;
- cyflwyno'r arolwg masnach yng Nghymru;
- datblygu arolwg mewnwelediadau ac amodau busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol bob pythefnos.⁵⁴

194. Fodd bynnag, nododd y Gweinidog fod mwy i'w wneud, gan nodi rhai enghreifftiau o ddatblygiadau yn y dyfodol, fel 'rhoi hwb' i sampl Cymru o'r arolwg adnoddau teulu ac ymateb Cymru i'r cyfrifiad. Byddai'r ddau ohonynt yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol yn y blynyddoedd i ddod.⁵⁵

Sgiliau ac Arbenigedd

195. Yn ei adroddiad, Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, nododd y Pwyllgor mai un thema gyffredin yn y sesiynau tystiolaeth, o ystyried natur gymhleth contractau Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat, oedd yr angen sylfaenol i'r sector cyhoeddus feddu ar alluoedd ac arbenigedd mewnol ar ddechrau'r prosiectau Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

196. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru adolygu lefel yr arbenigedd sydd ar waith ar gyfer rheoli contractau, a chymryd camau i gynnal yr arbenigedd hwn i sicrhau y caiff prosiect ei gyflawni'n effeithiol drwy gydol ei oes.

197. Yn ei hymateb i'r adroddiad, dywedodd y Gweinidog "Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu lefelau'r adnoddau sydd eu hangen i reoli contractau cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd, gyda'r nod o sicrhau y caiff swyddogaeth rheoli contractau ei sefydlu cyn i gynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ddechrau ar y broses adeiladu yn 2020".

198. Gan fynd ar drywydd sut mae gwasanaeth sifil Cymru wedi ymateb i argymhelliad y Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog:

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraffau 130-131

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraffau 132-133

“... different stages of the projects will require different resource complements. We've used our holding in local partnerships to bring commercial experts into the Welsh Government, ensuring that they have the skills necessary to develop and procure those MIM schemes. And I'm very mindful that active contract management is going to be the key to the success of these schemes. It's something I think the committee was keen that we were putting in place to ensure that we got that value for money. And there are different options as to how we do that.

On the education MIM, we continue to use our holding in local partnerships in the short term, alongside looking at and examining more longer term solutions. And for transport, we're working currently with Transport for Wales to ensure that the effective contract management during the construction phase of the MIM project is in place. So, we're looking to bring in expertise to the Welsh Government but also to make use of the expertise of our partners as well.⁵⁶

Ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliadau'r Pwyllgor

199. Pan ofynnwyd iddi sut mae gwaith ymchwiliadau'r Pwyllgor hwn wedi sbarduno gwelliant, cyfeiriodd y Gweinidog at ei waith ar broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb. Wrth gydnabod bod gan Lywodraeth Cymru farn wahanol, dywedodd ei bod yn ddefnyddiol o ran archwilio beth arall y gellid ei wneud yn y maes hwn, er mwyn cyflawni'r un canlyniadau mewn ffyrdd gwahanol, o bosibl.⁵⁷

200. Aeth ymlaen i ddweud:

“The work that has been done on local tax arrangements has also been particularly useful in terms of helping us focus our minds, really, on areas of interest to people in Wales, and the work that the committee has done setting out the importance of support for business, for example, through non-domestic rate support has been reflected in the fact that we've made our small business rate relief scheme permanent. And we recently announced bespoke support for the leisure, retail and hospitality sector. So, I think that the shared areas of interest and

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraffau 100-101

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 119

priorities have been useful in terms of helping us consider what options are available to us.”⁵⁸

201. Ar 21 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r egwyddorion a fydd yn siapio datblygiad cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru dros y 18 mis nesaf. Yn y datganiad hwn nododd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn “ystyried y ffordd orau o ddefnyddio ein pwerau benthyca cyfalaf yn yr hirdymor, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn eu hymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru”.⁵⁹

202. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod yr ymchwiliad wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu olynedd y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, a bod ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor wedi siapio'r strategaeth fel y mae ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i ddweud:

“I published a written statement that sets out the development and where we are with the next steps in terms of the WIIP, and it says, 'we will deploy our capital levers to ensure the delivery of our strategic outcomes', for example, through the use of capital borrowing powers and innovative finance mechanisms. Those were recommendations of the committee. Also, on our response to the climate emergency and our commitment to net-zero on tackling biodiversity, again, those are things that I know committee has wanted us to use our capital levers to drive forward as well. So, it's been really useful in that regard.”⁶⁰

Barn y Pwyllgor

203. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal amrywiaeth eang o ymchwiliadau yn ystod y Pumed Senedd, ochr yn ochr â'i brif rôl craffu ariannol a goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru. Er ei fod yn darparu her a gwaith craffu trwyadl ar Lywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor wedi meithrin perthynas waith adeiladol gydag Ysgrifennydd Cyllid blaenorol y Cabinet a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, sydd i'w weld yn y ffaith bod y mwyafrif helaeth o argymhellion wedi eu derbyn.

204. Drwy gydol ei waith craffu ar y pwerau codi refeniw datganoledig, mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion ynghylch yr angen am ddata penodol i Gymru i lywio polisi treth yng Nghymru a gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 120

⁵⁹ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-di-weddariad-ar-fuddsoddiad-seilwaith-strategol-llywodraeth-cymru>

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Mawrth 2015, paragraff 134

rhanddeiliaid. Wrth gydnabod y gwelliannau a amlygwyd gan y Gweinidog, mae'n amlwg bod angen data pellach i fynd i'r afael â bylchau yn y sylfaen dystiolaeth yng Nghymru ac i gael gwell dealltwriaeth o effaith dargyfeirio treth.

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn gweithio i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol ac effeithiol gyda Gweinidog Cyllid y dyfodol.

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn parhau i geisio a monitro datblygiadau o ran gwella data ac ymchwil sy'n benodol i Gymru i ategu polisiau cyllidol.

8. Brexit a'r Undeb Ewropeaidd - trefniadau pontio

205. Yn ystod tymor y Pumed Senedd, mae Brexit wedi codi yn llawer o waith y Pwyllgor. Yn ogystal ag ymgymryd â gwaith penodol yn gysylltiedig â Brexit, fel ei ymchwiliad i'r Paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru, a'i adroddiad ar Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, mae hefyd wedi bod yn thema yng ngwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Gyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru.

Deddf Marchnad Fewnol 2020

206. Daeth Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn gyfraith ym mis Rhagfyr 2020.

Pwerau cymorth ariannol

207. Rhoddodd y Ddeddf bwerau ariannol newydd i Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn Rhan 6 Adrannau 50 a 51 o'r Ddeddf. Nodir yn adran 50 y gellir darparu cymorth ariannol at unrhyw un o'r dibenion a ganlyn;

- hyrwyddo datblygiad economaidd yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig;
- darparu seilwaith mewn lleoedd yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys seilwaith mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r dibenion eraill a grybwyllir yn yr adran hon);
- cefnogi gweithgareddau, prosiectau a digwyddiadau diwylliannol mae'r Gweinidog yn eu hystyried o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r Deyrnas Unedig neu rannau penodol o'r Deyrnas Unedig;
- cefnogi gweithgareddau, prosiectau a digwyddiadau sy'n ymwneud â chwaraeon mae'r Gweinidog yn eu hystyried o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r Deyrnas Unedig neu rannau penodol o'r Deyrnas Unedig;
- cefnogi gweithgareddau a chyfnewidiadau addysg a hyfforddiant rhyngwladol;
- cefnogi gweithgareddau a chyfnewidiadau addysg a hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig.

208. Ar 2 Tachwedd 2020, clywodd y Pwyllgor gan y Gweinidog am oblygiadau'r pwerau cymorth ariannol hyn ar wariant mewn meysydd datganoledig. Dywedodd:

“... the internal market Bill gives the UK Government power to spend in areas that are clearly devolved.”⁶¹

209. Ategwyd y pryderon hyn gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd mewn llythyr at Bwyllgor Materion Cymru Senedd y Deyrnas Unedig ar 11 Ionawr 2021, lle nododd:

“The blatant disregard for the Welsh Government is the more disturbing within the context of the Internal Market Act which allows UK Ministers to bypass and undermine devolution by exercising spending powers over areas of devolved competence.”⁶²

210. Ymatebodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r pryderon hyn, gan nodi:

“It is clear that our two governments' perspectives on the UK Internal Market Act 2020 are not readily reconcilable.”⁶³

211. Mewn perthynas â'r gwahanol safbwyntiau a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Deyrnas Unedig ar bwerau cymorth ariannol Bil y Farchnad Fewnol, gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Gwladol am eglurhad pellach ynghylch a allai'r pwerau arwain at sefyllfa lle mae cyllid y Senedd yn cael ei frigidorri oherwydd bod penderfyniadau gwariant datganoledig yn cael eu gwneud mewn meysydd datganoledig

212. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

“... I don't think it is valid, and I've not heard that anywhere. In all of the conversations I've had with the Treasury, and this applies to other territorial offices as well, that has never been on the table. In fact, it has never been necessary to be on the table because that's never been

⁶¹ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2020, paragraff 266

⁶² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, 11 Ionawr 2021

⁶³ Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, 22 Ionawr 2021

something that has been proposed or even considered. So, I don't see that as a part of what we're proposing here.”⁶⁴

213. Aeth yn ei flaen yn y llythyr i ddweud bod disgwyl i Gymru dderbyn swm sylweddol o gyllid etifeddiaeth dros y pedair blynedd ariannol nesaf, o'r rownd flaenorol o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, gan ragweld y bydd Cymru'n derbyn mwy na £375 miliwn yn flynyddol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23, gyda chyllid ychwanegol o £220 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, i gynorthwyo ardaloedd lleol i drosglwyddo i ffwrdd o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

214. Yn adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, nodwyd:

“Mae'r mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r goblygiadau cyfansoddiadol ac ariannol yn sgîl pasio'r Bil hwn, yn ei ffurf bresennol, yn tanseilio'r setliad datganoli ac yn golygu bod posibilrwydd y gellid lleihau'r cyllid sydd ar gael drwy Grant Bloc Cymru.”⁶⁵

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

215. Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y Deyrnas Unedig mewn refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd.

216. O ystyried bod Cymru wedi derbyn llawer mwy o arian yr Undeb Ewropeaidd y pen nag unrhyw un o'r cenhedloedd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i asesu'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

217. Cafodd llawer o'r cyllid a gafodd Cymru drwy'r Undeb Ewropeaidd ei sianelu drwy Gronfeydd Strwythurol, a ddyluniwyd i fynd i'r afael â thlodi a lleihau gwahaniaethau rhanbarthol; a thrwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

218. Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn disodli Cronfeydd Strwythurol, ond pan gyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Medi 2018, ychydig iawn o fanylion na

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 207

⁶⁵ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig. Tachwedd 2020.

gwybodaeth oedd wedi dod i'r fei am y Gronfa, a nododd y Pwyllgor ei siom gyda'r diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

219. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a'r ddarpariaeth yn lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn gyfle i lunio dull strategol ar gyfer Cymru. Mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, amlygodd yr adroddiad sut gallai hyn gael ei rannu rhwng y pedair gwlad, gan gyflwyno achos cryf dros yr egwyddor na ddylai Cymru fod geiniog yn waeth ei byd o ganlyniad i Brexit, ac i Lywodraeth Cymru reoli a gweinyddu cyfran Cymru.

220. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor, derbyniodd y Gweinidog bob un o'i 11 argymhelliad, a nododd:

“Rydym yn cytuno â barn y Pwyllgor na ddylai Cymru fod geiniog ar ei cholled olewydd Brexit...”

221. Dywedodd hefyd:

“rydym yn gwrthwynebu'r syniad o Gronfa Ffyniant Gyffredin a weinyddir yn Whitehall.”

222. Yn yr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig (yr Adolygiad o Wariant), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, amlinellwyd sut beth fyddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (UKSPF) yn fras:

“Funding for the UKSPF will ramp up so that total domestic UK-wide funding will at least match receipts from EU structural funds, on average reaching around £1.5 billion per year. In addition, to help local areas prepare over 2021-22 for the introduction of the UKSPF, the government will provide additional UK-wide funding to support communities to pilot programmes and new approaches.”

223. Aethpwyd ymlaen yn yr Adolygiad o Wariant i ddweud y bydd manylion pellach ynglŷn â sut bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gweithredu yn cael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2021, gyda manylion pellach i ddilyn ar natur y cyllid ychwanegol sydd i'w ddarparu yn 2021-22 gan ddefnyddio'r pwerau cymorth ariannol newydd ym Mil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

224. Ysgrifennodd y Pwyllgor⁶⁶ at yr Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am ddiweddariad brys ar effaith yr Adolygiad o Wariant yng Nghymru, gan gynnwys rhagor o

⁶⁶ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 27 Tachwedd 2020

fanylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn ei ymateb⁶⁷ ar 5 Rhagfyr 2020, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhagweld y byddai cyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ochr yn ochr â thaliadau olaf Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd “yn arwain at gynnydd sylweddol mewn buddsoddiad yng Nghymru y flwyddyn nesaf, o gymharu â'r taliadau blynyddol cyfartalog yn ystod saith mlynedd flaenorol y Cronfeydd Strwythurol”.

225. Ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd⁶⁸ at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 8 Ionawr 2021 ynghylch yr Adolygiad o Wariant, gan fod ganddo nifer o bryderon o hyd, gan gynnwys y diffyg manylder ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r diffyg mewn cyllid amaethyddol. Derbyniodd y Pwyllgor ei ymateb⁶⁹ ar 23 Chwefror 2021.

226. Cyflwynodd Naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, y farn bod Cymru yn debygol o dderbyn gostyngiad mewn cyllid fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin:

“Bydd cynnig Llywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin ledled y DU yn werth dim ond £220m y flwyddyn nesaf ar gyfer y DU gyfan – gostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r £375m y flwyddyn y mae Cymru yn unig yn ei gael ar hyn o bryd drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.”

227. Mewn tystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2021-22, nododd y Gweinidog ddiffyg manylion ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin:

“We understand that, potentially, the shared prosperity fund, or the levelling-up fund, will be potentially primarily a capital fund, so there might be additional funding from those funds coming to Wales, but as yet we don't have an indication.”⁷⁰

228. Amlygwyd pryderon tebyg ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig gan nifer o randdeiliaid a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ar Cyllideb Ddrafft 2021-22.

229. Galwodd Cydffederasiwn GIG Cymru am eglurder ar y strwythurau a'r trefniadau llywodraethu a fydd yn disodli Cronfeydd Strwythurol yr Undeb

⁶⁷ Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 7 Rhagfyr

⁶⁸ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, 8 Ionawr 2021

⁶⁹ Llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 23 Chwefror 2021

⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 100

Ewropeaidd, gan nodi bod y GIG angen eglurder ynghylch yr arian y bydd Cymru yn ei dderbyn, sut bydd yn cael ei dargedu a sut bydd yn cael ei weinyddu.⁷¹

230. Yn ei adroddiad ym mis Hydref 2020 dan y teitl Wales and the Shared Prosperity Fund, daeth y Pwyllgor Materion Cymreig i'r casgliad a ganlyn:

“...there is no clarity as to what the Shared Prosperity Fund will look like, how it will be administered, nor how it will be funded. This is unacceptable, and the UK Government must, as a priority, publish detailed proposals for how the Fund will operate.”

231. Nid yw manylion llawn y cynllun wedi cael eu cyhoeddi'n ffurfiol, ond mewn llythyr⁷² at Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet yn Llywodraeth yr Alban, dyddiedig 15 Ionawr 2021, dywedodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn:

“..operate UK-wide, using the new financial assistance powers in the UK Internal Market Act. We will ramp up funding so that total domestic UK-wide funding will at least match EU receipts on average reaching around £1.5bn a year.”

232. Mewn ymateb i'r cwestiwn a fydd Cymru'n derbyn yr un lefel o gyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chronfeydd eraill, o gymharu â chyllid a gafwyd yn flaenorol o dan yr Undeb Ewropeaidd, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth y Pwyllgor ar 10 Mawrth 2021 mai:

“...a combination of all of those funding opportunities underpinned by the not-a-penny-less guarantee I hope will give you a sense of my optimism that we're not looking at a rather bleak period of underfunding or reduced funding. I would like to think quite the opposite.”⁷³

233. Yn ystod y sesiwn hon gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch strwythur tebygol model y Gronfa Ffyniant Gyffredin a holodd a fyddai'r gronfa'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynteu gan Lywodraeth Cymru.⁷⁴

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Confedderasiwn GIG Cymru

⁷² Llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys at Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet yn Llywodraeth yr Alban, 15 Ionawr 2021

⁷³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 164

⁷⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraffau 166 ac 168

234. Yn ei ymateb, nid oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu cadarnhau manylion, ond nododd fod Robert Jenrick AS, y Gweinidog arweiniol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, wedi rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru y byddai proses ymgynghori ar y materion hyn yn bendant yn cael ei chynnal⁷⁵ a bod ganddo 'feddwl agored iawn' o ran rôl Llywodraeth Cymru yn y gwaith o reoli'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.⁷⁶

235. Cadarnhaodd Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y Deyrnas Unedig, mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig ar 8 Chwefror 2021 yn gofyn am ragor o fanylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin:

“The Government will publish a UK-wide investment framework in Spring 2021 and confirm multi-year funding profiles at the next Spending Review. Further details on the operation of the additional funding in 2021/22 will be published soon.”

Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig

236. Yn ei adroddiad yn 2018 ar Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, argymhellodd y Pwyllgor:

“...bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Cymru yn parhau i gael y lefel bresennol o gyllid ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin.”

237. Dywedodd y Pwyllgor fod cynnal y lefel bresennol o gyllid i gefnogi'r sector yn ddigonol o'r pwys mwyaf.

238. Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, dywedodd y Gweinidog:

“Mae Gweinidogion Cymru yn glir na ddylai ymadael â'r UE olygu unrhyw leihad yn y cyllid sydd ar gael i dir Cymru.”

239. Yn dilyn yr Adolygiad o Wariant ym mis Tachwedd 2020, ysgrifennodd y Pwyllgor⁷⁷ at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ddiweddariad ar y hyn a fyddai'n disodli cyllid Polisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, y dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ymddangos ei fod yn gadael ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru £137 miliwn yn brin o'r cyllid disgwylid yn 2021-22.

⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 169

⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 174

⁷⁷ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 27 Tachwedd 2020

240. Mewn ymateb⁷⁸, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i warantu'r gyllideb flynyddol gyfredol i ffermwyr yn Senedd bresennol y Deyrnas Unedig yn cael ei chyflawni drwy:

“...a combination of Exchequer funding and EU funding that will continue to be accessed for CAP Pillar 2...”

241. Clywodd y Pwyllgor gan y Gweinidog y bydd y diffyg mewn cyllid o'i gymharu â'r hyn y byddai ffermwyr wedi disgwyl ei dderbyn o dan drefniadau cyllido blaenorol, gan gynnwys cyllid datblygu gwledig ehangach, yn effeithio ar waith ehangach o ran cymorth a phrosiectau gwledig.⁷⁹

242. Ni awgrymodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud iawn am y gostyngiad hwn yn y Gyllideb Derfynol drwy wneud dyraniadau o gronfeydd presennol Llywodraeth Cymru, ond bydd yn parhau i bwysu'n gryf am drosglwyddiad o £42 miliwn yn ymwneud â throsglwyddiad o golofn i golofn na dderbyniwyd.⁸⁰

243. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“...we understand from Her Majesty's Treasury officials...that the Chief Secretary is minded not to agree our request for the return of the £42 million. We haven't had that notification formally; we'd expect that through the UK supplementary estimates process, which we're likely to have information on very shortly...As soon as that's confirmed, Chair, obviously I'm keen to clarify that for committee, but also, then, set out what our response would be to that.”⁸¹

244. Adroddodd y Pwyllgor ei bryder dwys ynghylch y tebygolrwydd y bydd diffyg yn y cyllid cyffredinol sydd ar gael i amaethyddiaeth a'r economi wledig ehangach o'i gymharu â lefelau 2020-21, ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o fanylion am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar gyllid sy'n ymwneud â throsglwyddo o golofn i golofn.

⁷⁸ Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 7 Rhagfyr 2020

⁷⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 183

⁸⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2021, paragraff 189

⁸¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 149

245. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

“Mae proses yr Amcangyfrifon Atodol wedi cadarnhau bod y cais i drosglwyddo o golofn i golofn wedi cael ei wrthod.”

Barn y Pwyllgor

246. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi datgan yn rheolaidd ei bryderon ynghylch y diffyg eglurder a thryloywder o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, ac mae'r pryderon hyn yn parhau. Mae tystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o randdeiliaid ledled Cymru yn teimlo'r pryderon hyn. Mae'n siomedig nad yw'r manylion ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig wedi eu cwblhau ar hyn o bryd.

247. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am y dystiolaeth bod cyllid trosglwyddo o golofn i golofn a'r cyllid cyffredinol sydd ar gael i amaethyddiaeth a'r economi wledig ehangach yn debygol o fod ymhell islaw'r lefel sydd ar gael yn 2020-21.

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried y sefyllfa mewn perthynas â chyllid Cymru yn dilyn Brexit, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn derbyn cyllid sydd o leiaf yn cyfateb i gyllid a dderbyniwyd o dan gynlluniau'r Undeb Ewropeaidd mewn blynyddoedd blaenorol.

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd yn ystyried yr effaith o ran atebolrwydd y gwahanol strwythurau sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Deyrnas Unedig i ddarparu a dosbarthu cyllid fydd yn disodli cyllid blaenorol yr Undeb Ewropeaidd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a sut mae hyn yn rhyngweithio â blaenoriaethau a chyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

9. COVID-19

248. Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi dwy Gyllideb Atodol ym mhob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, cyhoeddwyd Cyllideb Atodol ychwanegol yn 2020-21, a oedd yn cynnwys dyraniadau ychwanegol sylweddol, fel rhan o'i hymateb i bandemig COVID-19. Y tair Cyllideb Atodol a gyhoeddwyd oedd:

- Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21, a gyhoeddwyd ar 27 Mai 2020;
- Ail Gyllideb Atodol 2020-21, a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2020;
- Trydedd Cyllideb Atodol 2020-21, a gyhoeddwyd ar 16 Chwefror 2020.

Penderfyniadau cyllido yn ystod y flwyddyn

249. Mae pandemig COVID wedi achosi problemau sylweddol i seneddau o ran craffu ar wariant y Llywodraeth. Dros y flwyddyn ariannol, cynyddodd cyllideb Llywodraeth Cymru bron i £6 biliwn o ganlyniad i benderfyniadau yn ystod y flwyddyn a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Gyda Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru yn gorfod rhyddhau cyllid i ddelio â'r argyfyngau iechyd ac economaidd, roedd yn heriol i'r Pwyllgor a'r Senedd gael yr wybodaeth i olrhain neu graffu ar ddyraniadau cyllid a wnaed. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yn Niweddariad Economaidd yr Haf Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn £500 miliwn yn ychwanegol o gyllid COVID-19 drwy gyllid canlyniadol Fformiwla Barnett, gan ddod â chyllid cymorth COVID-19 ychwanegol Llywodraeth Cymru i gyfanswm o £2.8 biliwn.

250. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn gyhoeddus mai dim ond £12.5 miliwn o gyllid 'newydd' roedd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn fel cyllid canlyniadol Fformiwla Barnett.

251. Mynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol bod y ffigurau a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn niweddariad Economaidd yr Haf yn gywir, a dywedodd wrth y Pwyllgor:

“The fact is that £2.8 billion, of which £500 million was a part, has been, or is in the process of being made available to Welsh Government as a result of the Barnett formula.”⁸²

⁸² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Gorffennaf 2020, paragraff 26

252. Gan ei fod yn pryderu ynghylch y gwahanol safbwyntiau rhwng y ddwy Lywodraeth ar gyfrifo'r setliad i Gymru, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog⁸³ a'r Ysgrifennydd Gwladol⁸⁴ i geisio eglurhad ar y cyfrifiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad.

253. Yn ei hymateb⁸⁵, cyfeiriodd y Gweinidog at ffigur Llywodraeth Cymru o £12.5 miliwn a dderbyniwyd mewn cyllid canlyniadol refeniw newydd, ac mae'n darparu manylion am “yr holl symiau canlyniadol a dderbyniwyd ers Prif Amcangyfrifon 2020”.

254. Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol⁸⁶:

“The UK government has committed that the Welsh government will receive at least £4.0bn of additional resource funding in 2020-21 on top of the position set out at the Spring Budget.”

255. Ar 20 Ionawr 2021, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor fod camau ychwanegol wedi eu cymryd i wella tryloywder yn adroddiadau ariannol Llywodraeth Cymru. Dywedodd:

“... we're having our third supplementary budget in February. I've also taken every opportunity to provide the information we have in terms of consequential funding to committee, and also provided updates to the Senedd in the Chamber as well. So, the level of transparency that I've offered and those opportunities for scrutiny have been the largest of any administration in the UK... the additional steps we've put in place” this year might be things that we could consider how we can develop for next year or for future administrations.”⁸⁷

256. Yn ei adroddiad ar y Gwaith Craffu ar Ail Gyllideb Atodol 2020-21, croesawodd y Pwyllgor gyhoeddi Cyllideb Atodol ychwanegol:

“Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r tryloywder a roddir i'r Senedd wrth gyflwyno'r Gyllideb Atodol ychwanegol hon, ac mae o'r farn y dylai'r dull

⁸³ [Llythyr](#) gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 22 Gorffennaf 2020

⁸⁴ [Llythyr](#) gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 22 Gorffennaf 2020

⁸⁵ [Llythyr](#) gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Awst 2020

⁸⁶ [Llythyr](#) gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 5 Medi 2020

⁸⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Ionawr 2021, paragraff 12

o gyflwyno cyllidebau atodol ychwanegol mewn blynyddoedd anghyffredin barhau.”⁸⁸

257. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i Lywodraeth Cymru ddarparu “cymaint â phosibl o wybodaeth amser real ar ei gwariant a’r cyllid sydd ar gael iddi” a bod yn fwy eglur wrth nodi pryd mae cyhoeddiad cyllid yn cynnwys arian “newydd”, ynteu a yw’n ymwneud â chyllid a gyhoeddwyd yn flaenorol.

258. Mae'r Pwyllgor wedi clywed yn flaenorol⁸⁹ bod y **gwarant cyllid** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a oedd yn gwarantu cyllid ychwanegol COVID-19 ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig, wedi achosi dryswch o ran gwybod a oedd cyhoeddiadau cyllido ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn dilyn y warant, wedi eu cynnwys yn y warant gyllido ar gyfer Cymru, ynteu'n cynrychioli cyllid ychwanegol a fyddai'n cael ei dderbyn drwy gyllid canlyniadol.

259. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon ynghylch lefel yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn ei adroddiad ‘Crffu ar y Gyllideb Atodol Gyntaf 2020-21’, argymhellodd:

“... bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Llywodraeth y DU yn rhoi cymaint o wybodaeth mor brydlon â phosibl, am unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU sy’n effeithio ar Gymru, ei thrigolion a/neu’r busnesau sy’n gweithredu yma.”⁹⁰

260. Yn ystod sesiwn dystiolaeth ar Ail Gyllideb Atodol 2020-21, rhoddodd y Gweinidog wybod i’r Pwyllgor fod yr ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwella, ers ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ym mis Mai, gyda mwy o gyfarfodydd pedairochrog yn cael eu cynnal. Er gwaethaf hyn, crynhodd y Gweinidog y lefelau cyfathrebu fel rhai ‘cymysg, ond gwael yn aml’.⁹¹

Ailadeiladu ac Adfer

261. Un o'r materion pwysicaf i Senedd a Llywodraeth nesaf Cymru fydd ailadeiladu ac adferiad economaidd.

262. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur strategaeth ar **Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a’r blaenoriaethau** ar 6 Hydref 2020, gan amlinellu ei chynllun

⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Crffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21, Tachwedd 2020

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2020, paragraff 195

⁹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Crffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21, Mehefin 2020

⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 191

ar gyfer ailadeiladu'r economi yn dilyn pandemig COVID-19. Canolbwyntiodd y cynllun ar wyth blaenoriaeth allweddol ar gyfer ailadeiladu, gan gynnwys lleihau diweithdra, sicrhau nad yw pobl ifanc dan anfantais yn addysgol nac yn economaidd, buddsoddi yng nghanol trefi ac adeiladu tai mwy fforddiadwy, ymhlith pethau eraill. Gwnaed dyraniadau mewn cyllidebau dilynol.

263. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi ei bryder ynghylch y ffaith nad oes gan un Gweinidog penodol gyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu adferiad Cymru yn sgil pandemig COVID-19, yn dilyn cyhoeddi Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau. Mynegodd y Pwyllgor ei bryderon mewn llythyr at y Prif Weinidog:

“Credwn fod y gwaith hwn yn hanfodol bwysig ac rydym yn synnu nad yw sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cael ei gyflawni yn gyfrifoldeb ar un Gweinidog penodol.”⁹²

264. Yn ei ymateb, dywedodd y Prif Weinidog:

“Y Gweinidogion sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod y blaenoriaethau uniongyrchol o fewn eu portffolios yn cael eu cyflawni a gallant ganolbwyntio eu polisiau a'u rhaglenni i gyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer adfer.”⁹³

265. Er ei fod yn cydnabod y dull cyfunol hwn, roedd yn dipyn o her i'r Pwyllgor gynnal gwaith craffu effeithiol ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru heb un pwynt cyswllt â'r cyfrifoldeb am adferiad ar ôl COVID-19 - cyllideb a oedd, heb os, wedi cael ei heffeithio gan yr ansicrwydd parhaus sy'n deillio o'r pandemig COVID-19.

266. Ar 6 Hydref 2020, dywedodd y Prif Weinidog wrth y Senedd:

“Rydym ni wedi ymrwymo i ailadeiladu sy'n gweithio i bob rhan o Gymru, gan gynnwys Islwyn, trwy fynd i'r afael â'r materion sydd bwysigaf i bobl: mynd i'r afael â diweithdra, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sefydledig, darparu tai fforddiadwy, adfywio canol ein trefi, a chefnogi'r economi sylfaenol.”⁹⁴

267. Ynghyd â'r cynllun adfer cyhoeddwyd addewidion 'ar ôl Covid', a ymrwymodd £320 miliwn o gyllid tuag at waith ailadeiladu ar unwaith. Ymrwymodd yr addewidion i fuddsoddi mewn prosiectau a chynlluniau dros y

⁹² Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog, 18 Tachwedd 2020

⁹³ Llythyr gan y Prif Weinidog ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 23 Rhagfyr 2020

⁹⁴ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 75

chwe mis dilynol a fyddai'n cyflawni'r wyth blaenoriaeth a nodwyd yn y cynllun adfer, gan gynnwys cyllid i bobl ifanc ac addysg (£103 miliwn), cynlluniau buddsoddi (£75 miliwn) a thai (£60 miliwn).

268. Roedd y Trydedd Cyllideb Atodol 2020-2021 yn cynnwys **dyraniad** o £270 miliwn i gynorthwyo gydag ymdrechion ailadeiladu; **a ddarperir** i Fanc Datblygu Cymru i helpu busnesau Cymru i gael gafael ar gyllid i "ganolbwyntio ar eu llwyddiant hirdymor".

Safbwynt y Pwyllgor

269. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cyllideb Atodol ychwanegol yn 2020-21 a'i hymdrechion i wella tryloywder yn ei hadroddiadau ariannol.

270. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch lefel yr ymgysylltu a'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y mae'r Gweinidog wedi ei ddisgrifio fel cysylltiad 'cymysg, ond yn aml yn wael.' Gellir dadlau bod y fath lefelau anfoddfaol o gydweithredu rhwng y ddwy Lywodraeth wedi cyfrannu at anghydfodau cyhoeddus ynghylch cyhoeddiadau cyllido, ac o ganlyniad, wedi rhwystro gwaith craffu effeithiol.

271. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r adferiad ar ôl COVID-19 fydd y flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru, a bydd angen i'r Senedd allu craffu'n effeithiol ar gynlluniau Llywodraeth Cymru. Er ei fod yn cydnabod y rôl fydd gan Weinidogion unigol, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y cynllun adfer ar ôl COVID-19 wedi ei gyhoeddi cyn y trydydd cyfnod o gyfyngiadau symud, ac ar ôl hynny nid oedd Gweinidog canolog yn gyfrifol am oruchwylio'r adferiad.

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adferiad ar ôl COVID-19 yn thema graffu ganolog ar gyfer pwyllgor cyfrifol y Chweched Senedd drwy gydol y tymor seneddol nesaf.

Atodiad: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Er bod y tystion a ganlyn wedi darparu tystiolaeth lafar i'r pwyllgor i lywio ei waith etifeddiaeth, mae gwaith craffu'r Pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad hwn. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
<u>10 Mawrth 2021</u>	<p>Rebecca Evans AS Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd</p> <p>Andrew Jeffreys Cyfarwyddwr - Trysorlys, Llywodraeth Cymru</p> <p>Gawain Evans Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru</p> <p>Debra Carter Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol</p> <p>Marcella Maxwell Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp, Llywodraeth Cymru</p>
<u>10 Mawrth 2021</u>	<p>Y Gwir Anrh. Simon Hart AS Ysgrifennydd Gwladol Cymru</p> <p>Geth Williams Dirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Pholisi, Swyddfa Cymru</p>
<u>3 Mawrth 2021</u>	<p>Suzy Davies AS Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu</p> <p>Manon Antoniazzi Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd</p> <p>Nia Morgan Cyfarwyddwr Cyllid</p>